



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae Pecyn Cymorth

RHAN TRI

Gwybodaeth Ychwanegol ac Adnoddau



RHAN TRI

Gwybodaeth Ychwanegol ac Adnoddau

Cynnwys

1. Ymgynghoriad a chyfranogiad

- 1.1 Trosolwg
- 1.2 Chwarae a Chyfranogi
- 1.3 Arolygon ac Archwiliadau
- 1.4 Cynnal Arolygon
- 1.5 Sut i fynd ati i arolygu plant
- 1.6 Plant fel archwilwyr
- 1.7 Protocol cyfranogi

2. Cynnal yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae

- 2.1 Asesu Mater A: Poblogaeth
 - Ffynonellau gwybodaeth posibl
 - Diffinio cymunedau
- 2.2 Asesu Mater B: Diwallu anghenion amrywiol
 - Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb
 - Cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb
 - Cynhwysiant
 - Mynediad
 - Asesiadau o Fynediad i Fannau Chwarae
 - Darparu ar gyfer chwarae mewn ardaloedd gwledig
- 2.3 Asesu Mater C: Y lle sydd ar gael i blant chwarae
 - Gwerth Chwarae
 - Plant a'r awyr agored
 - Ategu gwerthoedd
 - Mannau agored
 - Mannau agored wedi'u dosbarthu yn ôl swyddogaeth a maint
 - Mannau chwarae dynodedig yn yr awyr agored lle nad oes staff
 - Nifer
 - Asesiadau o Fannau Chwarae
 - Sut i gynnal Asesiad o Fannau Chwarae

- 2.4 Asesu Mater Ch: Darparu cyfleoedd dan oruchwyliaeth
 - Diffinio darpariaeth gwaith chwarae
 - Asesu nifer
 - Asesu ansawdd
 - Nodi'r angen am ddarpariaeth arbenigol
- 2.5 Asesu Mater D: Taliadau ar gyfer darpariaeth chwarae
- 2.6 Asesu Mater Dd: Mynediad i le/darpariaeth
 - Mynediad i gyfleoedd chwarae yng nghyd-destun y polisi trafnidiaeth
 - Amgylcheddau – cynllunio strydoedd sy'n cefnogi cyfleoedd chwarae
 - Sicrhau cydweithio
 - Helpu pobl i gyrraedd mannau chwarae – ystyriaethau o ran safle
 - Gwybodaeth; cyhoeddusrwydd; digwyddiadau
 - Nodi'r gynulleidfa
 - Gwybodaeth ar-lein
 - Arfer da o ran dylunio tudalennau gwe i blant a theuluoedd
- 2.7 Asesu Mater E: Sicrhau a datblygu'r gweithlu chwarae
 - Gwaith chwarae
 - Y gweithlu chwarae
 - Dadansoddi Anghenion Hyfforddi
 - Holiadur i Gyflogwyr/Lleoliad
 - Asesu Risgiau a Buddiannau
- 2.8 Mater F: Ymgysylltu â'r gymuned a chymryd rhan ynddi
 - Gwybodaeth Gymunedol
 - Digwyddiadau Cymunedol
 - Ymgysylltu â'r Cyfryngau
 - Cyfryngau Cymdeithasol
- 2.9 Mater Ff: Chwarae yn unol â phob polisi perthnasol ac agenda weithredu
 - Addysg ac ysgolion
 - Cynllunio Gwlad a Thref
 - Traffig a Thrafnidiaeth
 - Iechyd a Lles
 - Tlodi Plant
 - Y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant
 - Polisiâu a mentrau i'r teulu
 - Polisiâu a mentrau sy'n pontio'r cenedlaethau
 - Datblygu Cymunedol
 - Diogelwch Cymunedol
 - Iechyd a Diogelwch
 - Asesu Risgiau a Buddiannau

3. Datblygu'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae

- Cytuno ar Flaenoriaethau
- Casglu a chyflwyno data
- Dadansoddi patrymau
- Manteision Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS)

4. Datblygu'r Cynllun Gweithredu ar Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae

1. Ymgynghoriad a chyfranogiad

1.1 Trosolwg

Mae hawl plant i gyfranogi ym mhob mater sy'n effeithio arnynt wedi'i nodi yn Erthygl 12 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Pan roddir y cyfle i blant gyfranogi, cânt hefyd y cyfle i gyflwyno newid - yn bersonol yn eu bywydau, yn eu cymunedau ac yn fyd-eang.

Yng Nghymru, mae'r agenda cyfranogiad plant wedi datblygu mewn ffordd wahanol ac unigryw. Caiff y datblygiadau hyn eu cynnwys o fewn fframwaith ymrwymiad Llywodraeth Cymru i CCUHP, sydd bellach wedi'i fabwysiadu'n ffurfiol fel sail ei holl waith o ran plant (*Gweithredu'r Hawliau, Llywodraeth Cymru, 2004*).

Mae'r Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru), 2011, yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i CCUHP wrth wneud penderfyniadau ynghylch polisiau a deddfwriaethau. Mae hyn yn ategu'r holl waith a weir gan Lywodraeth Cymru i wella bywydau plant a phobl ifanc (rhwng 0 a 25 oed).

1.2 Chwarae a chyfranogi

Mae gan blant yng Nghymru yr hawl i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Mae eu bri ar chwarae hefyd, cael amser, mannau o safon a rhyddid i chwarae yn eu ffordd eu hunain.

O ystyried bod chwarae mor bwysig i bob plentyn, mae angen i ni sicrhau bod unrhyw ran a chwaraeir gan blant yn y broses o wneud penderfyniadau yn ystyrllon, nid yn symbolaidd, ac nad yw'n cwtogi'n ddiangen ar eu hamser a'u rhyddid i chwarae.

Mae cyfranogiad gweithredol ac ystyrllon yn hawl alluogi – mae'n galluogi plant i ddylanwadu ar y broses o wneud penderfyniadau a chyflwyno newidiadau gwirioneddol, iddynt hwy eu hunain a'u ffrindiau.

Chwarae yw'r flaenoriaeth i blant – dyna eu hagenda. Pan gefnogwn eu hawl i chwarae, cefnogwn eu hagenda; rydym yn cydweithio â hwy gan gynnig syniadau, cefnogi eu syniadau ac anelu at gyflawni nod cyffredin.

Proses yn hytrach na digwyddiad yw cyfranogi, lle gellir cymryd rhan i raddau amrywiol o leisio barn ar fater y penderfynwyd arno ymlaen llaw i blant yn dewis eu hagenda, yn gwneud eu penderfyniadau eu hunain ac yn gweithredu arnynt. Mae'n ddefnyddiol ystyried pa lefel o gyfranogi sydd fwyaf priodol ac effeithiol mewn lleoliadau a sefyllfaoedd gwahanol.

Mae a wnelo cyfranogi â chreu diwylliant lle y gwrandewir ar blant o bob cefndir, buddiant a gallu a rhoddir y cyfle iddynt gymryd rhan.

Wrth gynnal unrhyw brosiect sy'n cynnwys plant, mae Chwarae Cymru yn argymhell y dylid cyfeirio at y Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc. Bwriedir i'r Safonau wella'r broses o gynnwys plant wrth wneud penderfyniadau. Mae'r Safonau yn mesur 'ansawdd'

cyfranogiad plant yn erbyn dangosyddion allweddol cytûn. Gellir lawrlwytho'r Safonau o wefan Llywodraeth Cymru:

<http://cymru.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/publications/participationstandards/?lang=cy>

Mae Blast Off! yn gyfres o ganllawiau arfer da sydd wedi'u datblygu gan yr Uned Gyfranogi i hyrwyddo cyfranogiad cadarnhaol ymhlith grwpiau gwahanol o blant. Gellir lawrlwytho'r canllawiau hyn yn:

www.participationworkerswales.org.uk/resources.aspx

1.3 Arolygon ac archwiliadau

Mae ysgolion yn llefydd delfrydol i gynnal arolygon gyda niferoedd mawr o blant. Bydd cynnwys dosbarthiadau cyfan o blant yn aml yn rhoi darlun mwy cynrychioliadol o safbwyntiau plant a'r materion sy'n effeithio ar eu cyfleoedd i chwarae.

Mae arolygon da yn canolbwyntio ar 'brofiadau' yn hytrach na 'phethau', yn enwedig elfennau mwy amlwg ac arwynebol gyffrous darpariaeth.

Yn llawer rhy aml, yn enw 'ymgyngghori' neu 'ymgysylltu' gellir gofyn i blant ddychmygu eu 'hoff' fan chwarae neu leoliad chwarae. Fodd bynnag, gall eu diffyg profiad - oherwydd eu hoedran a'r tloidi presennol o ran darpariaeth – wneud iddynt ddymuno'r hyn maent yn gyfarwydd ag ef.

Efallai y bydd hwyluswyr yr arolwg yn cael budd o ddarllen taflen wybodaeth Chwarae Cymru, sef *Canllaw dechreuwr i gyfranogaeth*, sydd ar gael i'w lawrlwytho yn:

www.chwaraecymru.org.uk/taflennigwybodaeth

1.4 Cynnal arolygon

Mae llawer o adrannau Awdurdodau Lleol a'u partneriaid eisoes yn ymgynghori â phlant. Er mwyn cynnal Asesiad cynhwysfawr o Ddigionolrwydd Cyfleoedd Chwarae, bydd yn ddefnyddiol defnyddio'r un cwestiynau ym mhob rhan o'r awdurdod fel bod modd cymharu canlyniadau a'u defnyddio i olrhain newid dros gyfnod o amser.

Gall darparwyr chwarae lleol a grwpiau cymunedol sydd am feithrin dealltwriaeth o brofiadau chwarae'r plant sy'n defnyddio eu gwasanaethau hefyd ddefnyddio cwestiynau'r arolwg.

Mae'r cwestiynau arolwg enghreifftiol a luniwyd yn ceisio barn ynghyd â phrofiadau plant. Bwriedir iddynt gael eu defnyddio gyda phlant o oeddrannau a galluoedd gwahanol, er y gall y dulliau amrywio. Gall y cwestiynau gael eu haddasu i gasglu barn gyffredinol grŵp poblogaeth neu gallant gael eu defnyddio gan grwpiau penodol i adolygu'r ddarpariaeth maent yn ei chynnig i blant. Fel arall, gellir dewis rhai ohonynt fel rhan o arolygon Awdurdodau Lleol eraill.

Gall arolygon gael eu cynnal yn rhyngweithiol ar ffurf gwaith grŵp a gweithdai neu drwy holiaduron (naill ai'n ysgrifenedig neu'n electronig).

Cyfeiriwch at adnodd 5 – Sampl o Gwestiynau'r Arolwg a Nodiadau i Hwyluswyr

1.5 Sut i fynd ati i arolygu plant

Mae Cyfranogi: Bywiogi'r Ifanc yn ganllaw ac adnodd defnyddiol ar gyfer gweithio gyda phlant sy'n codi ymwybyddiaeth o'u hawliau:

<http://cymru.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/publications/youngspice/?skip=1&lang=cy>

Cyfeiriwch at adnodd 6 – Technegau ar gyfer Cynnal Arolwg o Blant

1.6 Plant fel archwilwyr

Bydd plentyn sy'n chwarae, drwy reddf, yn dehongli lle ac yn ei newid, neu'n syml fel arall yn symud ymlaen am nad yw'r lle yn cynnig yr hyn sydd ei angen arno neu ddim yn ei gynnig mwyach.

I'r rheini sy'n gyfrifol am asesu mannau chwarae, plant fydd y ffynhonnell wybodaeth fwyaf dibynadwy. Wrth asesu man chwarae, mae angen i ni gofio mai ein hagenda ni yw hyn ac nid un plant. Dylem ochel rhag amharu ar eu hamser, ond er mwyn sicrhau bod plant yn perchenogi lleoliad chwarae, mae eu cyfranogiad yn ddefnyddiol yn hynny o beth.

Mae rhai plant yn syml wrth eu bodd yn chwarae rhan. Bydd eu chwilfrydedd naturiol yn gwneud iddynt holi am yr hyn sy'n digwydd pan fyddant yn gweld rhywun yn cyfrif adnoddau ac efallai y byddant am helpu. Heb roi pwysau arnynt a chyda pheth arweiniad, gall plant lywio asesiad o fan chwarae mewn sawl ffordd.

Gall edrych ar fapiau gyda phlant fod yn ffordd dda o edrych ar ddaearyddiaeth ardal a dechrau deall sut mae plant yn chwarae ynddi. Rhaid i ni osgoi rhannu gwybodaeth bwysig am fannau chwarae dirgel plant ag oedolion eraill a allai eu hatal rhag chwarae yn y mannau hynny oni fydd perygl difrifol a dybryd.

Ymhlith y dulliau gweithredu eraill sy'n cynnwys plant mae:

- tynnu lluniau o'r hyn maent yn hoffi ei wneud
- cyfweld â phlant eraill am eu diddordebau
- llunio a chwblhau holiaduron gyda'u cymheiriaid
- cymryd ffotograffau o'r hyn sy'n digwydd yn y man chwarae.

Bydd mynd allan i'r gymuned ac, mewn modd sensitif, wyllo plant yn chwarae a sgwrsio â hwy hefyd yn helpu i ddwyn ynghyd wybodaeth oddi wrth y plant hynny nad ydynt yn defnyddio'r lleoliad chwarae efallai. Os gwnawn hyn, dylem osgoi edrych yn rhy 'swyddogol' oherwydd mae plant yn debygol o wasgaru a diflannu!

Mae'n bwysig cofio, pan fydd plant yn cymryd rhan mewn gwaith archwilio, nad ydynt yn teimlo ein bod yn addo pethau na allwn eu gwireddu. Ein gwaith, ar y cam hwn, yw mapio a dehongli'r lle a'r hyn sy'n digwydd ynddo er mwyn cefnogi prosesau gwneud penderfyniadau. Os byddwn, ar unrhyw adeg yn ystod y broses, yn cyfleu negeseuon cymysg ynghylch datblygu lleoliad neu adnoddau yn y dyfodol, bydd plant yn teimlo eu bod wedi'u hymddieithrio a chaiff effaith negyddol ar eu hymdeimlad o berchenogaeth. Bydd plant sydd ar gamau gwahanol o ran dealltwriaeth yn dehongli pethau'n wahanol, felly bydd sicrhau bod eu cyfranogiad yn gweddu i'w cyfnod mewn bywyd yn helpu i leihau'r risg o gamddealltwriaeth.

1.7 Protocol cyfranogi

Os oes amrywiaeth o hwyluswyr yn cynnal yr arolwg, gall fod yn ddefnyddiol llunio protocol a rennir sy'n ystyried y canlynol (yn seiliedig ar Lais Disgyblion Cymru):

Mae'n aml yn ofynnol cynnwys plant wrth gynllunio a gwerthuso'r broses o ddatblygu gwasanaethau. Er mwyn gweddu i'r Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc a diogelu plant rhag prosesau ymgynghori a chyfranogi anfoesegol mae angen manylu ar yr hyn rydych yn bwriadu ei wneud a'r hyn sy'n ofynnol.

Bydd y cwestiynau canlynol yn sefydlu protocol lle y bydd plant yn cyfranogi mewn modd teg sy'n sicrhau bod eu cyfraniadau yn cael eu cydnabod, eu gwerthfawrogi a'u defnyddio.

GWYBODAETH – Bydd angen i'r plant sy'n cymryd rhan gael gwybodaeth glir sy'n hawdd ei deall. Beth yw nodau ac amcanion y darn o waith a beth rydych yn gobeithio ei gyflawni?

DEWIS – Gofynnir i'r plant a ydynt am gymryd rhan ond bydd hefyd angen cael caniatâd rhieni. Pwy fydd yn gyfrifol am gael y caniatâd priodol i blant gymryd rhan? Pa ddata personol am y sawl sy'n cymryd rhan y bydd ei angen arnoch a pham?

DIM GWAHANIAETHU – Mae gan bob plentyn yr hawl i gymryd rhan ond rhaid sicrhau y gellir ymdopi â'r gwaith. Sawl plentyn yr hoffech iddynt gymryd rhan? A oes cyfyngiadau o ran pwy sy'n gallu cymryd rhan ac os oes pam?

PARCH – Mae'n bwysig bod plant yn cael eu parchu yn ystod y broses a bod eu syniadau, eu safbwyntiau a'u profiadau yn cael eu cymryd o ddifrif ac y gwrandewir arnynt. A oes siawns dda y bydd plant yn dylanwadu ar y broses gwneud penderfyniadau? A allwch ddangos y bydd syniadau a safbwyntiau plant yn helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu polisïau/gwasanaethau?

MAE'N WERTH CHWEIL – Dylai plant gael budd o gymryd rhan yn y broses er mwyn sicrhau bod cyfranogi yn brofiad cadarnhaol. Sut y bydd unigolion ar eu hennill yn sgil cyfranogi?

ADBORTH – Mae'n bwysig cael adborth fel bod plant yn gwybod a ydynt wedi gwneud gwahaniaeth a sut y defnyddiwyd eu syniadau. Pwy sy'n gyfrifol am lunio deunydd adborth a sut y gwneir hynny? Faint o amser fydd yn mynd heibio cyn i blant gael adborth a phwy sy'n gyfrifol am hyn?

GWELLA GWEITHDREFNAU – Mae'n arfer da parhau i wella'r ffordd rydym yn gweithio gyda phlant drwy ofyn iddynt werthuso ein gwaith. Pwy sy'n gyfrifol am y broses werthuso a sut y caiff ei chynnal?

2. Cynnal yr Asesiad o Ddigionolrwydd Cyfleoedd Chwarae

Mae angen i'r Materion canlynol gael eu hystyried wrth gynnal yr Asesiad o Ddigionolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn unol â'r Canllawiau Statudol.

2.1 Asesu Mater A: Poblogaeth

Dylai ystod eang o gyfleoedd chwarae a hamdden fod ar gael i bob plentyn yng Nghymru. Dylai'r Awdurdod Lleol nodi pa gamau sydd agen eu cymryd i wella cyfleoedd chwarae i blant, ac yna sicrhau cyfleoedd chwarae sy'n diwallu anghenion pob plentyn pan fydd ail ran y ddyletswydd yn dechrau. Bydd hyn yn cynnwys ymchwilio i anghenion grwpiau penodol o blant a'r hyn sydd ar gael iddynt.

Bydd yr Awdurdod Lleol eisoes yn meddu ar wybodaeth fanwl am y boblogaeth plant leol a all fod gan adrannau cynllunio, rheoli perfformiad neu ymchwil a gwerthuso. Bydd yr adrannau hyn (neu adrannau tebyg) yn gallu helpu i nodi sut y caiff data ei gadw a beth sydd fwyaf cywir ar gyfer eu priod ardal leol. Mae llawer o Awdurdodau Lleol yn dibynnu ar wybodaeth a ddarperir gan ysgolion a darparwyr eraill drwy'r Cyfrifiad Ysgolion Blyneddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) wrth ystyried y boblogaeth plant oherwydd gall yn aml roi'r darlun mwyaf cywir o'r boblogaeth plant leol. Cynhelir y CYBLD bob mis Ionawr ac mae'n cwmpasu meithrinfeydd; ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd ac ysgolion arbennig gan nodi niferoedd disgyblion fesul oedran; rhyw; prydau ysgol am ddim; anghenion addysgol arbennig a newidynnau eraill.

Ffynonellau gwybodaeth posibl

Nodweddion poblogaeth gofynnol	Ffynhonnell Bosibl
Nifer y plant fesul grŵp oedran • 0-3 oed • 4-7 oed • 8-12 oed • 13-15 oed • 16-17 oed	Mae StatsCymru yn wasanaeth di-dâl lle y gall ymwelwyr weld, trin, creu a lawrlwytho tablau o blith y data swyddogol mwyaf manwl ar Gymru. http://statswales.wales.gov.uk/index_cy.htm Cafodd canlyniadau Cyfrifiad 2011 a gynhaliwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) eu cyhoeddi ym mis Gorffennaf 2012.

Nodweddion poblogaeth gofynnol	Ffynhonnell Bosibl
parhad	Mae mapiau ardal ar gyfer pob Ardal Cynnyrch Ehangach Is (ACEI) yng Nghymru ar gael o'r ddolen isod. ACEI yw'r uned ddaearyddol a ddefnyddir ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (Malc). Caiff ACEIau eu ffurfio o grwpiau o Ardaloedd Cynnyrch a ddefnyddiwyd yng Nghyfrifiad 2001. Ceir 1,896 o ACEIau yng Nghymru â phoblogaeth o tua 1,500 yr un. Am nad yw maint na ffiniau ACEIau wedi newid ers iddynt gael eu creu yn 2004, caiff yr un ardaloedd eu dadansoddi yn y tri diweddariad Malc diweddar (Malc 2005, Malc 2008 a Malc 2008: Mynegai Plant). Gall y mapiau gael eu defnyddio ochr yn ochr â'r tri diweddariad i nodi'r ardal a gwmpesir gan bob ACEI. www.statswales.wales.gov.uk/TableViewer/document.aspx?ReportId=17819
Nifer y plant anabl	Nid oes ffynhonnell ddata ddiffiniol sy'n rhoi nifer y plant anabl a geir ar hyn o bryd. Fodd bynnag, efallai y bydd data ar gael oddi wrth: • Y Tîm Plant ac Anabledau • Byrddau Iechyd Lleol Gallai'r data hwn gael ei wella drwy ymgysylltu â phlant yn y boblogaeth i ddeall y rhwystrau posibl i achub ar gyfleoedd chwarae.
Nifer y siaradwyr Cymraeg Plant sy'n cael addysg cyfrwng Cymraeg Plant lle nad Cymraeg na Saesneg yw eu hiaith gyntaf	Mae data ar siaradwyr Cymraeg fesul Awdurdod Lleol yn seiliedig ar Gyfrifiad 2011 ar gael yn: www.statswales.wales.gov.uk/TableViewer/tableView.aspx?Reportid=3852 Gwasanaethau Addysg Gwasanaethau Addysg Data SYG
Ethnigrwydd	Bydd y data hwn hefyd ar gael gan SYG a bydd yn ymwneud â Chyfrifiad 2011. Gall y data hwn gael ei wella drwy ymgysylltu â phlant yn y boblogaeth i ddeall y rhwystrau posibl i achub ar gyfleoedd chwarae.

Diffinio cymunedau

Bydd Awdurdodau Lleol eisoes yn diffinio cymunedau at ddibenion casglu data a datblygu/darparu gwasanaethau. Y rhain fydd y meysydd sy'n gwneud y synnwyr mwyaf yn lleol. Gallant fod yn seiliedig ar wardiau etholiadol, cymunedau dysgu, ffiniau, cymunedau preswyl neu feini prawf eraill sy'n berthnasol i grwpiau poblogaeth lleol.

Dylai'r Asesiad o Ddigionolrwydd Cyfleoedd Chwarae ddisgrifio sut y defnyddir gwybodaeth leol ynghyd â'r rhesymeg a ddefnyddir gan yr Awdurdod Lleol i ddiffinio cymunedau.

2.2 Asesu Mater B: Diwallu anghenion amrywiol

Dylai'r Awdurdod Lleol anelu at gynnig cyfleoedd chwarae sy'n gynhwysol ac yn annog pob plentyn i chwarae a dod ynghyd. Dylai gydnabod y gall fod rhwystrau yn wynebu rhai plant sy'n eu hatal rhag cymryd rhan yn yr amrywiaeth o gyfleoedd chwarae yn eu hardal. Gallai hyn ddeillio o anabledd/nam; gwerthoedd diwylliannol cymunedau'r plant eu hunain neu ffactorau amgylcheddol neu agweddol eraill.

Dylai gydnabod anghenion plant sydd ag amrywiaeth o anableddau a'r gofynion mynediad gwahanol o fewn y grwpiau anabledd hyn. Er enghraifft, bydd gan blant sydd â nam ar y clyw ofnion gwahanol i'r rheini â gofynion symudedd. At hynny, efallai y bydd gan blant â nam ar y clyw anghenion mynediad gwahanol, yn dibynnu ar eu hoff ffordd o gyfathrebu.

Dylai'r Asesiad o Ddigionolrwydd Cyfleoedd Chwarae gwmpasu:

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn broses sydd wedi'i chynllunio i sicrhau nad yw polisi, prosiect na chynllun yn gwahaniaethu yn erbyn unrhyw un sydd dan anfantais neu'n agored i niwed. Mae llawer o Awdurdodau Lleol eisoes yn cynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb fel modd i sicrhau bod dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus yn cael ei chyflawni.

Mae asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb yn cynnwys asesu effeithiau tebygol neu wirioneddol polisi neu wasanaethau ar bobl o ran anabledd, rhyw a chydaddoldeb hiliol. Mae'n helpu i sicrhau bod anghenion pobl yn cael eu hystyried pan gaiff polisi neu wasanaeth newydd eu datblygu a'u rhoi ar waith neu pan gaiff newid ei wneud i bolisi neu wasanaeth presennol.

Cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Mae'r asesiad hwn yn archwilio'n fanwl y broses o ganfod pa fath o effaith y gall polisi ei gael ar gydraddoldeb a pha grwpiau o bobl y bydd yn effeithio arno fwyaf.

Cyfeiriwch at adnodd 7 – Templed Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Cynhwysiant

Yr egwyddor na wahaniaethir yn erbyn pobl ac y cymerir camau cadarnhaol i sicrhau bod pob plentyn yn gallu cyfranogi i'r graddau mwyaf posibl. Nid yw'n ofynnol cynnal archwiliad o gynhwysiant ond gall roi tystiolaeth ein bod wedi gwneud pob addasiad rhesymol i ddileu'r rhwystrau i gynhwysiant fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Mynediad

Archwiliad o fynediad yw'r term a ddefnyddir i ddisgrifio proses lle y caiff yr amgylchedd, adeilad neu sefydliad ei werthuso o ran hygyrchedd. Mae archwiliad o fynediad yn archwilio ac yn awgrymu ffyrdd o wella mynediad. Drwy gynnal archwiliad, gellir nodi'r hyn y mae sefydliad yn ei wneud yn dda a'r meysydd i'w gwella y mae angen canolbwyntio arnynt.

Mae Archwiliad o Fynediad:

- Yn nodi rhwystrau.
- Gall atgyfnerthu tystiolaeth anecdotaidd.
- Rhydd adnodd blaenoriaethu gwerthfawr – mae'n gyflym ac yn rhad ac mae'n newid ymddygiad ac arfer.
- Dengys fod gan sefydliad ymrwymiad a system gynllunio i ddangos 'addasiadau rhesymol'.

Yn dibynnu ar y math o archwiliad a gynhelir, a chyn i unrhyw waith gychwyn, dylid ei gwneud yn glir beth a gaiff ac na chaiff ei gwmpasu gan y 'briff'. Os nad oes digon o arian ar gael i gomisiynu archwiliad diduedd, gall fod yn bosibl i nifer o bartneriaid gynnal adolygiad cymheiriaid o leoliad y naill a'r llall.

Cyfeiriwch at adnodd 8 – Ystyriaethau i'w Cynnwys mewn Archwiliadau Mynediad ar gyfer Lleoliadau

Asesiadau o Fynediad i Fannau Chwarae

Drwy alluogi plant i ddefnyddio mannau chwarae, mae'n eu helpu hwy a'u teuluoedd i feithrin cydberthnasau a rhwydweithiau yn y gymdogaeth a all gysylltu cymunedau a hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol.

Nid yw'n realistig honni y gellid creu man chwarae lle mae pob elfen yn hygyrch i bob plentyn. Ni fydd pob plentyn yn cael yr un profiad o chwarae. Er enghraifft, gall clwydi sy'n addas i blant mewn cadeiriau olwyn eu hagar a'u cau fod yn rhy hawdd i blant ag anhwylder yn y sbectrwm awtistig a fyddai'n cael mwy o fudd o gliciedau sydd o'u cyrraedd. Yr hyn sy'n hanfodol yw bod hawl plant i chwarae yn cael ei chydabod, eu bod yn gallu mwynhau'r profiad o chwarae i'r eithaf yn eu ffordd eu hunain a bod unrhyw rwystrau diangen (cymdeithasol a thechnegol) yn cael eu dileu.

Dylai'r Awdurdod Lleol ddangos ei fod yn ystyried materion mynediad ar gyfer amrywiaeth o anabledau gwahanol ac anghenion amrywiol eraill, megis natur wledig, ethnigrwydd a ffactorau diwylliannol eraill.

Bwriedir i'r adnodd Asesu Mannau Chwarae ym Mater Asesu 3 gefnogi'r asesiad o'r lle o ran ei hygyrchedd i'r nifer fwyaf o blant sy'n byw mewn cymunedau.

Darparu ar gyfer chwarae mewn ardaloedd gwledig

Bydd plant sy'n byw mewn ardaloedd gwledig yn wynebu problemau gwahanol i'r rheini sy'n byw mewn Awdurdodau Lleol mwy trefol neu led-drefol. Gallant wynebu heriau o ran cymryd rhan a lleisio barn.

Ceir camsyniad cyffredin fod y cyfleoedd i chwarae rywsut yn well mewn ardaloedd gwledig. Mewn gwirionedd, gall y boblogaeth gymharol fechan, patrymau anheddu gwasgaredig a systemau trafniadaeth gwael mewn ardaloedd gwledig olygu bod rhai plant yn ynysig iawn. Gall pentrefi llinellol, traffig drwodd a/neu gymudo trwm, diffyg palmentydd a meysydd chwarae ar gyrion pentrefi oll beri rhwystr i blant o ran chwarae.

Gall cyfyngiadau rhieni ar ryddid plant i fynd o un man i'r llall gael effaith fwy cyfyngus ar blant gwledig, tra bod darpariaeth chwarae gyhoeddus yn dueddol o fod yn gyfyngedig iawn a gall arferion ffermio dwys olygu bod cyfleoedd chwarae anffurfiol yn brin.

2.3 Asesu Mater C: Y lle sydd ar gael i blant chwarae

Gwerth Chwarae

Mae darpariaeth chwarae o ansawdd yn rhoi'r cyfle i bob plentyn rhyngweithio'n rhydd â'r canlynol neu brofi'r canlynol:

- **Plant eraill** – o oedrannau a galluoedd gwahanol lle gellir dewis chwarae ar eu pen eu hunain neu gydag eraill, trafod, cydweithio, dadlau a datrys anghydfodau.
- **Y byd naturiol** – y tywydd, coed, planhigion, pryfetach, anifeiliaid, mwd.
- **Rhannau rhydd** – deunyddiau naturiol a synthetig y gellir eu trin a'u trafod, eu symud a'u haddasu, eu hadeiladu a'u chwalu.
- **Y pedair elfen** – daear, awyr, tân a dŵr.
- **Her ac ansicrwydd** – cyfleoedd graddol i fentro; ar lefel gorfforol ac emosiynol hefyd.
- **Newid hunaniaeth** – chwarae rôl a gwisgo i fyny.
- **Symud** – rhedeg, neidio, dringo, cydbwyso, rholio, siglo, sleidio a throelli.
- **Chwarae gwyllt** – chwarae ymladd.
- **Y synhwyrau** – synau, blas, gwead, aroglau a golygfeydd.

Plant a'r awyr agored

Pan fydd plant yn teithio drwy dirwedd, nid ydynt yn cerdded â phwrpas fel y cyfryw; yn hytrach maent yn chwarae eu ffordd i'w cyrchfan. Maent yn treulio cryn dipyn o'u hamser yn crwydro oddi ar lwybr ac yn aros i chwarae yn hytrach na mewn cyrchfannau a ddewiswyd ymlaen llaw. Gwyddom fod plant yn hoffi amrywiaeth o elfennau yn eu hamgylcheddau chwarae, sy'n cynnwys:

- Dŵr
- Llystyfiant megis coed, gwrychoedd, blodau a glaswellt hir
- Anifeiliaid; er enghraifft, creaduriaid mewn pyllau ac o dan gerrig
- Tywod (gorau oll os gellir ei gymysgu â dŵr)
- Amrywiaeth a newid
- Lliwiau naturiol (yn hytrach na rhai artiffisial/sylfaenol)
- Mannau i eistedd arnynt, ynddynt ac oddi tanynt
- Mannau sy'n darparu lloches a chysgod
- Gwahanol lefelau a thyllau a chorneli

- Mannau uchel sy'n cynnig golygfeydd
- Mannau lle gellir siglo a sleidio
- Mannau preifat
- Strwythurau a deunyddiau y gellir eu newid
- Mannau i greu 'lle arbennig' / gwneud lle

Ceir sail dystiolaeth gynyddol sy'n nodi gwerth a manteision plant yn chwarae yn yr awyr agored mewn lleoliadau naturiol. Mae astudiaethau dilynol wedi dangos bod yn well gan blant chwarae yn yr awyr agored a cheisio amrywiaeth o leoliadau i wneud hyn. Mae plant yn defnyddio amrywiaeth o leoedd i gwrdd â chymdeithasu â ffrindiau ac i chwarae, nid bob amser mewn mannau a ddynodwyd gan oedolion ond yn arbennig mewn amgylcheddau sy'n cynnig cyfleoedd da i ymgysylltu.

Ategu gwerthoedd

Gall yr Awdurdod Lleol ddefnyddio'r ystyriaeth a roddir i fannau sy'n cynnig cyfleoedd chwarae mewn Asesiadau o Fannau Agored i gyfleu ymrwymiad i sicrhau bod amgylcheddau o ansawdd i chwarae, cymdeithasu a mwynhau gweithgareddau hamdden anffurfiol ar gael i bob plentyn.

- Dylai ardaloedd tir cyffredin y cyhoedd fod yn fannau y gall cenedlaethau, unigolion, grwpiau a chymunedau eu mwynhau.
- Dylai rhieni a gofalwyr ddisgwyl bod mannau agored lleol ar gael i blant fwynhau chwarae, heb fod unrhyw niwed annerbyniol yn dod i'w rhan.
- Dylai mannau agored fod yn amgylcheddau amrywiol a diddorol.
- Dylai parciau a mannau agored gael eu hadolygu er mwyn dangos i ba raddau y maent yn cyfrannu at gyfleoedd chwarae lleol neu y gallent wneud hynny yn y dyfodol.
- Dylai mannau agored gael eu newid lle y bo angen er mwyn sicrhau eu bod yn dod yn hygyrch i blant ac yn cyfoethogi eu cyfleoedd i chwarae.

Mannau agored

Bydd mannau agored yn aml yn cynnig cyfleoedd hamddenol ac anffurfiol i chwarae. Mae mannau agored yn gallu bod yn ardaloedd pwysig lle y gall plant chwarae neu fynd drwyddynt er mwyn cyrraedd ardaloedd chwarae eraill

Mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol ddarparu fframwaith ar gyfer cyfleusterau chwaraeon a hamdden wedi'u lleoli'n dda. Y ffordd orau o gyflawni'r amcanion a nodir yn PCC yw cynnal asesiad lleol o anghenion ac archwilio'r hyn a ddarperir eisoes. Mae'r asesiadau hyn, gyda'i gilydd, yn ffurfio Asesiad o Fannau Agored, a ddylai fod wedi cael ei ddefnyddio i lywio'r gwaith o baratoi, monitro ac adolygu Cynlluniau Datblygu Lleol.

Disgwylir i'r holl leoedd sydd ar gael at ddefnydd gwirioneddol neu bosibl y cyhoedd, p'un a ydynt yn eiddo i'r Awdurdod Lleol neu'n eiddo preifat, gael eu hasesu.

Mannau agored wedi'u dosbarthu yn ôl swyddogaeth a maint

Mae'r Canllawiau Statudol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae ystyried y canlynol:

- Glaswelltir/prysgdir
- Coetir a mannau gwyrdd amwynder
- Traethau a glannau afonydd a llynnoedd
- Parciau a gerddi cyhoeddus (yn ogystal ag ardaloedd chwarae o fewn y parciau)
- Strydoedd preswyl
- Tir ysgolion
- Safleoedd tir llwyd
- Meysydd pentrefi, sgwariau trefi, plazas a mannau cyhoeddus trefol eraill
- Darnau o dir cysylltiedig, er enghraifft ar hyd ffyrdd, llwybrau, meysydd parcio ac ati.

Mae hefyd yn ddefnyddiol categoreiddio mannau agored yn ôl swyddogaeth a ph'un a ydynt wedi'u dynodi'n fannau chwarae ai peidio. Mae Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 16 yn nodi teipoleg mannau agored yn seiliedig ar swyddogaeth.

Gan gydnabod pwysigrwydd mannau agored amlswyddogaethol, awgryma TAN 16 y dylai'r deipoleg gael ei defnyddio i nodi prif swyddogaeth mannau a'i haddasu yn ôl amrywiadau lleol fel y bo angen.

Fodd bynnag, dylid cydnabod bod y rhan fwyaf o fannau agored yn cyflawni amrywiaeth o swyddogaethau, yn arbennig mewn ardaloedd trefol. Yn achos safleoedd mawr sydd â mwy nag un prif swyddogaeth, gall hefyd fod yn ddefnyddiol ystyried isrannu'r safleoedd er mwyn nodi eu swyddogaethau gwahanol, a all wedyn fod yn gysylltiedig â safonau.

Po fwyaf yw man agored, y mwyaf amrywiol fydd y potensial am gyfleoedd hamdden ac y pellaf y bydd pobl yn teithio i ymweld ag ef. Felly, mae hefyd yn ddefnyddiol categoreiddio mannau agored yn ôl maint.

Dylai mannau gael eu hasesu o ran eu hansawdd amgylcheddol:

Teipoleg	Cynnwys a nodweddion y deipoleg hon
Parciau a gerddi cyhoeddus	Parciau trefol, parciau gwledig a gerddi ffurfiol Coed a gwrychoedd, llethrau naturiol, llwybrau troed a waliau
Mannau gwyrdd naturiol a lled-naturiol	Coetir, fforestydd trefol, prysgdir, glaswelltiroedd, tir mynediad agored a gwlyptiroedd
Coridorau gwyrdd	Glannau afonydd a chamlesi, llwybrau troed, llwybrau beicio, llwybrau ceffylau, tir rheilffyrdd segur a hawliau tramwy

Teipoleg	Cynnwys a nodweddion y deipoleg hon
Cyfleusterau chwaraeon yn yr awyr agored	Cyrtiau tenis, lawntiau bowlio, meysydd chwaraeon, cyrsiau golff, traciau athletau, meysydd chwarae ysgolion a sefydliadau eraill ac ardaloedd chwaraeon eraill yn yr awyr agored
Mannau gwyrdd amwynder	Mannau hamdden anffurfiol (preifat neu ar agor i'r cyhoedd), mannau gwyrdd o fewn ac o amgylch safleoedd tai a safleoedd eraill (e.e. tir ysbytai neu ysgolion), safleoedd diwydiannol a busnes, gerddi a thir domestig a meysydd pentrefi
Rhandiroedd, gerddi cymunedol a ffermydd dinas (trefol)	Gerddi rhandiroedd
Mannau dinesig	Sgwariau dinesig a marchnad ac ardaloedd arwyneb caled eraill sydd wedi'u cynllunio ar gyfer cerddwyr
Dŵr	Pyllau llanw a dŵr croyw agored, pyllau, afonydd, camlesi, llynnoedd, cronfeydd dŵr, dociau a harbyrau
Strydoedd preswyl	Ffyrdd pengaead a strydoedd tawel nid nepell o dai, mynediad hawdd, arwynebau chwarae llinellol llyfn ar gyfer gemau bob dydd, cyfleoedd megis troed-rolio a sglefrio, byrddau sglefrio a seiclo
Tir ysgolion	Cyfarpar chwarae meysydd chwarae, nodweddion amgylcheddol megis pyllau, gwrychoedd a choed. Arwynebau llinellol gwastad.
Safleoedd tir llwyd	Unrhyw dir neu eiddo a ddefnyddiwyd neu a ddatblygwyd gynt ac nad yw'n cael ei ddefnyddio'n llawn ar hyn o bryd, er y gall fod yn cael ei feddiannu neu ei ddefnyddio'n rhannol. Gall hefyd fod yn wag, yn adfeiliedig neu'n halogedig. Felly, nid yw safle tir llwyd o reidrwydd ar gael i'w ddefnyddio'n syth heb ymyrraeth.

Mannau chwarae dynodedig yn yr awyr agored lle nad oes staff

Mae'r Canllawiau Statudol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae ystyried y canlynol:

- Lleoedd chwarae ac ardaloedd chwarae
 - Carreg y drws
 - Lleol
 - Cymdogaeth
 - Cyrchfan
- Caeau hamdden (chwarae) – naturiol ac artiffisial
- Ardaloedd gemau aml-ddefnydd
- Ardaloedd chwarae ar gyfer olwynion – parciau ar gyfer beiciau BMX a pharciau sglefrio
- Mannau cyfarfod i bobl ifanc.

Dylid asesu'r canlynol mewn perthynas â lle:

- Gwerth chwarae
- Y pellter gwirioneddol y mae angen ei deithio o gartref plentyn
- Maint y ddarpariaeth o ran nifer y plant
- Hygyrchedd ac addasrwydd o ran gwahanol oeddrannau, galluedd, defnydd yn ystod tywydd sych a thywydd gwlyb
- Lefelau derbynol o gyfleoedd i fentro mewn modd buddiol
- Y defnydd a wneir ohono ar hyn o bryd ar gyfer chwarae
- Y potensial i gynyddu'r defnydd a wneir ohono at ddibenion chwarae

Nifer

Mae llawer o Awdurdodau Lleol eisoes wedi sefydlu a diweddarau data am nifer a lleoliad manau chwarae dynodedig fel y disgrifir uchod. Bydd rhai wedi comisiynu arolygon/asesiadau allanol sy'n rhoi trosolwg o fannau chwarae a gynhelir yn yr awyr agored nas goruchwylir.

Os felly, byddai'n ddefnyddiol ymestyn y rhestr hon i gynnwys ardaloedd a reolir gan asiantaethau eraill (megis Cynghorau Tref a Chymuned, y Comisiwn Coedwigaeth, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol neu ysgolion). Rhydd hyn ddarlun mwy cydlynol a bydd yn helpu'r Awdurdod Lleol i wneud y wybodaeth hon yn hygyrch fel y disgrifir yn y Canllawiau Statudol, Mater Dd (*Gwybodaeth; digwyddiadau; cyhoeddusrwydd*).

Lle ceir data cynhwysfawr a chyfredol, bydd Awdurdodau Lleol mewn sefyllfa dda i gynnal neu dreialu Asesiadau Ansawdd.

Asesiadau o Fannau Chwarae

Mae Asesiad o Fannau Chwarae yn ffordd ddefnyddiol o nodi'r defnydd gwirioneddol a phosibl a wneir o fannau sy'n bodoli eisoes, boed yn fannau agored neu'n ardaloedd chwarae dynodedig na chânt eu staffio. Os yw plant eisoes yn chwarae yn y manau hyn, bydd tystiolaeth o hyn a chynlluniwyd yr adnodd hwn i helpu i nodi ble mae plant yn chwarae, beth maent yn ei wneud yno

a pha mor aml y chwaraeir yno. Bydd hefyd yn helpu i gydnabod bod arwyddion ymddangosiadol o esgeulustod megis sbwriel, canghennau wedi torri ar goed a graffiti yn arwyddion o ddefnydd plant mewn gwirionedd.

Bydd y gallu i nodi'r ardaloedd neu'r darnau o gyfarpar a ddefnyddir fwyaf a sut y'u defnyddir yn helpu i sicrhau bod cyfleoedd chwarae presennol yn cael eu diogelu ac yn ychwanegu gwerth at yr hyn sydd yno eisoes.

Mae asesiad da o fannau chwarae hefyd yn helpu mewn nifer o ffyrdd eraill. Mae'n rhan o'r broses gyfranogi ac ymgysylltu a gall helpu i gasglu tystiolaeth i ategu'r hyn a ddywedir gan y gymuned a phlant. O'i gynnal yn rheolaidd (bob chwe mis er enghraifft) gall gael ei ddefnyddio i helpu i fonitro'r ffordd y caiff y lle dan sylw ei ddefnyddio a pha mor aml.

Sut i gynnal Asesiad o Fannau Chwarae

Bwriedir i'r Asesiad o Fannau Chwarae gael ei ddefnyddio ar gyfer arsylwad a ddylai gymryd hanner awr o leiaf. Yn ddelfrydol, dylai gael ei gynnal ar adegau gwahanol o'r dydd er mwyn gweld gwahanol grwpiau oedran yn defnyddio'r lle. Gellir gwneud arsylwadau ar benwythnosau neu ar ôl ysgol ac yn ystod y dydd i arsylwi plant cyn oedran ysgol yn defnyddio'r safle gyda'u rhieni. Bydd amseriad arsylwadau yn dibynnu ar y safle dan sylw.

Bydd modd nodi ymddygiadau chwarae heb fod angen gweld plant yn chwarae, er enghraifft os yw plant yn ymgynnull ar gerrig mawr neu'n defnyddio ardaloedd â seddi, bydd ôl-traed neu dyllau wedi'u gwneud â thraed neu frigau.

Hefyd, os yw'r lle yn atyniadol i blant mae'n debygol y bydd nifer o ffactorau yn cyfrannu at hyn. Dywed plant wrthym fod materion megis pa mor dda y mae safle wedi'i oleuo, pa mor agos ydyw i'w cartrefi, a ph'un a oes mannau i gysgodi oll yn cyfrannu at ymdeimlad o fod yn ddiogel ac yn apelio i ystod oedran eang. Os mai dyma'r achos, bydd angen i'r man dan sylw gael ei gynllunio mewn ffordd sy'n darparu ar gyfer yr ystod oedran eang honno a demograffeg newidiol.

Mae gan bob plentyn anghenion chwarae gwahanol a dymuniadau sy'n gallu newid gydag amser. Nid yw o reidrwydd yn beth da gwahanu pobl yn ôl oedran neu ffactorau eraill (er y gall fod angen cymorth penodol ar rai grwpiau i ddiwallu eu hanghenion eu hunain). Mae rhyngweithio rhwng pob grŵp oedran ac aelod o'r gymdeithas yn hanfodol er mwyn helpu pob plentyn i deimlo'n fwy hyderus ynghylch chwarae a chymdeithasu. Drwy feithrin cydberthnasau â phlant eraill, rhoddir y cyfle i rannu gwybodaeth am bobl a daearyddiaeth cymdogaeth ynghyd â llên megis traddodiadau chwarae, rheolau gemau, mannau chwarae (er enghraifft hen bostyn sydd wedi'i ddefnyddio ers cenedlaethau mewn gemau megis chwarae cuddio neu *Faint o'r Gloch Mistar Blaid?*).

Ceir nifer o ymddygiadau chwarae o dan y pennawd 'gweithgaredd a arsylwyd' yn yr Asesiad o Fannau Chwarae – disgrifir y rhain yn fanylach isod i gefnogi'r gwaith arsylwi.

Cerdded/teithio drwy le – Os oes llwybr yn rhedeg drwy le efallai y bydd plant yn chwarae wrth iddynt symud drwyddo hyd yn oed os nad ydynt yn bwriadu aros yno - gall yr ymddygiadau gynnwys neidio oddi ar balmentydd ar feiciau/sgwteri, siglo wrth goeden, neidio dros bethau, rhedeg i lawr llethr, rhedeg rhydd/parcour. Gellir ystyried camau datblygu a fydd yn newid y ffordd y mae plant yn teithio drwy'r lle, megis ailbennu llwybr, a all annog cyfleoedd chwarae gwell neu fwy ohonynt.

Eistedd/ymgynnull/cymdeithasu – Hyd yn oed os nad oes ardaloedd eistedd ffurfiol, bydd mannau y mae plant yn dewis eu defnyddio. Bydd arwyddion o draul dan draed ger ardaloedd eistedd, o dan fframiau dringo, wrth fôn coed/cerrig mawr neu eitemau a gyflwynir i'r safle megis darnau o garped, cewyll, bwcedi a all gael eu defnyddio fel cadeiriau oll yn dystiolaeth bod plant yn defnyddio ardal i ymgynnull a chymdeithasu. Lle nad oes unrhyw gyfleoedd amlwg i gyflwyno ardaloedd eistedd ffurfiol, neu ardaloedd ymgynnull, ar y pryd, bydd creu'r rhain yn gwneud y lle dan sylw yn un mwy cymdeithasol a all gael ei ddefnyddio gan ystod eang o oedranau o deuluoedd â phlant iau i blant hŷn yn ymgynnull ac yn sgwrsio â'u ffrindiau. Dylid ystyried hyn wrth lunio camau datblygu mewn asesiad chwarae.

Beiciau/sgwteri/byrddau sglefrio – Gellir arsylwi plant sydd ar feiciau. Sut maent yn defnyddio'r lle? A gânt eu defnyddio i gyrraedd y lle yn unig neu a ydynt yn cael eu defnyddio yn y lle hefyd? Pa nodweddion a ddefnyddir ganddynt e.e. neidio neu lithro arnynt? A oes tystiolaeth o waith adeiladu gan blant - rampiau mwd, pren ac ati? A ellir gwneud unrhyw welliannau i gefnogi cyfleoedd chwarae i olwynion mewn ffordd anffurfiol?

Defnyddio nodweddion naturiol (e.e. coed/gwrychoedd/twmpathau/bryniau) – Pa nodweddion naturiol presennol sy'n cael eu defnyddio? Gellir arsylwi pwyntiau mynediad anffurfiol i mewn i goetiroedd, ac o dan goed/gwrychoedd, am arwyddion o sbwriel neu eitemau a gyflwynwyd i'r safle a allai fod yn arwydd o weithgarwch creu den neu guddfan. Mae traul ar risgl neu wrth fôn coed a changhennau wedi torri ar goed yn dystiolaeth bod plant yn dringo coed; yn yr un modd, dystiolaeth o wrthrychau a adewir yn y coed megis planciau o bren, rhaff a ffabrig. Gellir ystyried ffyrdd o gynyddu nodweddion naturiol drwy blannu a fydd yn creu mwy o gyfleoedd chwarae.

Chwarae gyda'r elfennau – Dylid ystyried a oes modd i blant ddefnyddio'r amrywiaeth o elfennau naturiol sydd ar gael i chwarae gyda hwy. Mae plant yn dwli ar y byd naturiol a dylent gael y cyfle i brofi dŵr, y ddaear (mwd), tân ac awyr. Dylai'r safle gael ei asesu o ran y mynediad i bob un o'r rhain a dylid ystyried ffyrdd o ymgorffori cyfleoedd i chwarae gyda'r elfennau.

Defnyddio'r synhwyrâu (blas, arogl, golygfeydd, synau, gwead) – Gellir arsylwi'r ffordd y mae plant yn symud drwy'r lle; mae dail sy'n pydru, tywod, cyffwrdd â rhisgl, teimlo metel oer, rholio mewn porfa a chwarae gyda chysgodion oll yn cynnig cyfleoedd chwarae sy'n defnyddio'r synhwyrâu.

Symud – Dylid ystyried y ffordd y mae plant yn symud drwy'r lle. Dylai fod amrywiaeth o gyfleoedd i symud mewn ffyrdd gwahanol mewn man chwarae, er enghraifft rhedeg, neidio, dringo, cydbwyso, rholio, siglo, sleidio, dawnsio a chwrsio.

Chwarae gwyllt – Bydd plant yn dysgu am eu cyfyngiadau corfforol eu hunain, eu cryfderau, sut i reoli dictter a ffiniau drwy chwarae gwyllt. Gall hyn fodoli ar sawl ffurf gan gynnwys chwarae ymladd, plismyn a lladron, cwrsio, chwarae cuddio – bydd yn amlwg o chwerthin, codi gwên a mynegiannau eraill y wyneb fod hon yn gêm a bod y plant yn ei thrin felly.

Risg a her (corfforol) – Mae plant am brofi her gynyddol. Nid oes angen i hyn fod yn weithgaredd risg uchel; gall fod mor syml â phlentyn bach yn datblygu o neidio oddi ar ris waelod ysgol i'r ail ac yna'r drydedd. Lle mae cyfleoedd i blant gymryd risg gorfforol, byddant fel arfer yn ceisio gwella a mynd gam ymhellach. Er enghraifft, bydd ramp beic a wnaed o friciau a darnau o bren yn fuan iawn yn cynnwys mwy o friciau wrth i'r plentyn fagu hyder.

Chwarae gyda phropiau/rhannau rhydd – Gellir arsylwi plant yn cyflwyno propiau o'r tu allan i wella eu profiad chwarae. Gallai hyn fod yn ddarn o raff ar gyfer siglen neu'n bren ar gyfer den, ceir tegan i adeiladu ffordd yn y mwd neu ddefnyddio elfennau naturiol megis cerrig, blodau, dail, aeron i greu byd bach, cymysgedd hud neu'n syml greu pentwr neu roi trefn ar eitemau a'u categorio.

Chwarae gyda hunaniaeth – Bydd plant yn chwarae gyda phwy ydynt a sut maent yn edrych. Gallai hyn fod yn gemau chwarae rôl, megis newid sut maent yn edrych gyda mwd ar eu hwyneb i gwisgo i fyny.

Defnyddio cerbydau modur/cwadiâu – Dylai'r lle gael ei asesu er mwyn pennu a gaiff ei ddefnyddio ar gyfer y math hwn o weithgaredd, boed hynny'n gyfreithlon ai peidio.

Cerdded cŵn – Dylai'r lle gael ei asesu er mwyn pennu a gaiff ei ddefnyddio'n rheolaidd i gerdded cŵn gan blant neu oedolion a ph'un a oes tystiolaeth o faw ci. Gellir ystyried ffyrdd o leihau effaith hyn. Er enghraifft, biniau baw ci, arwyddion, gweithio gyda wardeniaid cŵn, ffiniau i'r man chwarae.

Cyfeiriwch at adnodd 9 – Templed Asesu Mannau Chwarae

2.4 Asesu Mater Ch: Darparu cyfleoedd dan oruchwyliaeth

Darparu gwaith chwarae

Diffinio darpariaeth gwaith chwarae

Mae darpariaeth gwaith chwarae dda yn galluogi plant i ymestyn eu chwarae eu hunain a byddant yn diogelu ac yn gwella'r man chwarae fel ei fod yn amgylchedd chwarae da. Mae amgylchedd chwarae da yn:

- amgylchedd ffisegol amrywiol a diddorol sy'n cynnig y cyfle gorau posibl i gymdeithasu, bod yn greadigol, dangos dyfeisgarwch ac ateb her.
- rhywle lle mae plant yn teimlo'n rhydd i chwarae yn eu ffordd eu hunain, ar eu telerau eu hunain.

Lle nad oes mannau chwarae, amser na ffrindiau lleol ar gael i gefnogi anghenion chwarae plant, gall darpariaeth chwarae a gaiff ei staffio wneud iawn am hyn drwy gynnig rhywle lle y gall plant fod yn ddyfeisgar ac ymestyn eu chwarae.

Bydd gweithwyr chwarae yn sicrhau bod y man chwarae yn gynhwysol, gan helpu pob plentyn i achub ar y cyfleoedd sydd ar gael yn eu ffordd eu hunain.

Dylai'r Awdurdod Lleol asesu'r ddarpariaeth chwarae yn ei ardal o ran y graddau y mae'r cyfleoedd hyn o ansawdd sy'n diwallu anghenion y plant yn ei ardal o ran eu mwynhad, sgiliau cymdeithasol a chmau datblygu. Lluniwyd llawer o ddogfennau gan sefydliadau chwarae arbenigol yn rhoi cyngor ar y meini prawf sy'n gysylltiedig â mannau chwarae llwyddiannus o ansawdd uchel. Yn ôl Llywodraeth Cymru, mae amgylchedd chwarae da yn un hyblyg y gellir ei addasu ac sydd â nodweddion ffisegol diddorol amrywiol sy'n cynyddu'r cyfleoedd i gymdeithasu, bod yn greadigol, dangos dyfeisgarwch, ateb her a gwneud dewisiadau.

Mae darpariaeth chwarae o ansawdd yn rhoi'r cyfle i bob plentyn ryngweithio'n rhydd â'r canlynol neu brofi'r canlynol:

- **Plant eraill** – o oedrannau a galluoedd gwahanol lle gellir dewis chwarae ar eu pen eu hunain neu gydag eraill, trafod, cydweithio, dadlau a datrys anghydfodau.
- **Y byd naturiol** – y tywydd, coed, planhigion, pryfetach, anifeilaid, mwd.
- **Rhannau rhydd** – deunyddiau naturiol a synthetig y gellir eu trin a'u trafod, eu symud a'u haddasu, eu hadeiladu a'u chwalu.
- **Y pedair elfen** – daear, awyr, tân a dŵr.
- **Her ac ansicrwydd** – cyfleoedd graddol i fentro; ar lefel gorfforol ac emosiynol hefyd.
- **Newid hunaniaeth** – chwarae rôl a gwisgo i fyny.
- **Symud** – rhedeg, neidio, dringo, cydbwysu, rhoio, siglo, sleidio a throelli.
- **Chwarae gwyllt** – chwarae ymladd.
- **Y synhwyr** – synau, blas, gwead, aroglau a golygfeydd.

www.playwales.org.uk/qualityofprovision

Dylai pob aelod o staff weithio'n unol â'r Egwyddorion Gwaith Chwarae.

Cyfeiriwch at adnodd 10 – Yr Egwyddorion Gwaith Chwarae

Asesu nifer

Dylid gwneud cofnod o'r ddarpariaeth chwarae a hamdden a gaiff ei staffio fel rhan o'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae.

Dylid cynnwys y mathau canlynol o ddarpariaeth a gaiff ei staffio:

- cynlluniau chwarae yn ystod y gwyliau
- lleoedd chwarae antur
- cyfleoedd chwarae a gefnogir gan weithwyr chwarae peripatetig
- darpariaeth symudol, megis bysiau chwarae
- clybiau a grwpiau ieuenctid
- sefydliadau sy'n darparu adnoddau ar gyfer y lleoliadau hyn (megis llyfrgelloedd teganau neu siopau sborion)

Yr hyn a gaiff ei asesu	Materion i'w hystyried
Strwythur darpariaeth	
Nifer y darparwyr	Yn ddelfrydol, dylai hyn roi darlun o'r holl ddarpariaeth sydd ar gael o fewn yr Awdurdod Lleol, sydd naill ai'n cael ei chyflwyno gan yr Awdurdod, yn cael ei hariannu ganddo neu'n cael ei chyflwyno gan sefydliadau partner.

Yr hyn a gaiff ei asesu	Materion i'w hystyried
Nifer y lleoedd	Yn ogystal â chynnig darpariaeth a gofrestrir gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), dylai hyn hefyd adlewyrchu nifer y lleoedd y gall darparwyr eu cynnig o ran staff a lleoliad presennol ac ati.
Nodweddion darpariaeth	
Math o ddarparwr	Mae categorïddio mathau o ddarpariaeth yn helpu i nodi lefelau digonolrwydd.
Cost ar y pwynt mynediad	Drwy nodi strwythur prisiau, bydd modd pennu lefelau digonolrwydd a ph'un a yw rhai plant yn profi gwahaniaethu.
Amseroedd agor	Bydd nodi oriau gweithredu a ph'un a yw'r ddarpariaeth yn agored drwy gydol y flwyddyn yn helpu i bennu lefelau digonolrwydd.
Nodweddion darparwyr	
Grwpiau allweddol	Bydd hyn yn fodd i asesu faint o blant anabl sy'n defnyddio darpariaeth, y rheini lle mai Cymraeg yw eu hiaith gyntaf a'r rheini sy'n cael addysg cyfrwng Cymraeg; plant lle nad yw Cymraeg na Saesneg yn iaith gyntaf iddynt, a ffactorau diwylliannol eraill a gofnodir gan gynnwys ethnigrwydd (yn cynnwys plant sipsiwn-deithwyr, ffoaduriaid a cheiswyr lloches), a ph'un a yw rhai plant yn profi gwahaniaethu.

Asesu ansawdd

Nod y cyhoeddiad *Yr Hawl Cyntaf ... fframwaith ar gyfer asesu ansawdd gwaith chwarae* gan Chwarae Cymru yw galluogi gweithwyr chwarae, ac unrhyw oedolion eraill sydd â diddordeb mewn chwarae plant, i ddadansoddi, drwy arsylwi a myfyrio, yr amgylcheddau chwarae y maent yn gweithredu ynddynt. Rhydd fframwaith i asesu ansawdd yr hyn a ddarperir ac a brofir. Mae'n galluogi defnyddwyr i ystyried y canlynol:

- natur yr hyn y mae plant yn ei wneud
- rolau datblygol a therapiwtig posibl chwarae
- rolau a swyddogaethau'r gweithiwr chwarae (neu oedolyn arall)
- y ffyrdd mwyaf priodol o ymyrryd yn y broses chwarae
- iaith a chysyniadau gwaith chwarae.

Bwriedir i *Yr Hawl Cyntaf*... ategu gweithdrefnau sicrhau ansawdd eraill.

Cyfeiriwch at adnodd 11 – Adnodd Asesu Ansawdd

Mae'r Adnodd Asesu Ansawdd hwn yn seiliedig ar y Fframwaith Hawl Cyntaf a bydd yn helpu lleoliadau chwarae i bennu'r graddau y maent yn cynnig amgylchedd chwarae da.

Nodi'r angen am ddarpariaeth arbenigol

Mae'r rhan fwyaf o Awdurdodau Lleol a'u partneriaid yn gweithio tuag at ddarparu gwasanaeth gwaith chwarae cynhwysol, a gefnogir gan brotocol a chyfres o egwyddorion craidd. Cydnabyddir yn eang fod galluogi pob plentyn i chwarae a chwarae gyda'i gilydd o fudd i'r gymuned gyfan.

Er bod gweithwyr chwarae yn arbenigo mewn hwyluso chwarae plant, efallai na fydd ganddynt yr holl sgiliau sydd eu hangen i gefnogi rhai o'r anghenion mwy corfforol, emosiynol, meddygol neu gyfathrebu sydd gan blentyn penodol.

Mae plant ag anghenion gofal iechyd cymhleth yn cael eu diffinio fel plant sy'n dibynnu ar eu rhieni neu eu gofawyr i gyflawni gweithdrefn glinigol ymledol sy'n hanfodol, naill ai fel rhan o'u gofal rheolaidd neu mewn sefyllfa frys ddisgwyliedig.

Rhaid sicrhau bod dull cytûn a chyfarwydd o bennu pryd y bydd angen darpariaeth arbenigol. Y ffordd fwyaf effeithiol o sicrhau hyn yw dangos cysylltiad cryf rhwng gwasanaethau chwarae a sefydliadau chwarae, y tîm plant ag anableddau a'r bwrdd iechyd lleol.

2.5 Mater D: Taliadau ar gyfer darpariaeth chwarae

Ffactor sy'n effeithio ar p'un a oes gan blant ddigon o gyfleoedd chwarae yw p'un a allant hwy neu eu teuluoedd fforddio i dalu am ddarpariaeth pan godir tâl am gymryd rhan. Mae'n amlwg mai hyn fydd yn cael yr effaith fwyaf ar blant o deuluoedd incwm isel; plant sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig; plant anabl, plant sy'n byw mewn ardaloedd gwledig anghysbell a'r rheini a all fod angen cymorth ychwanegol gyda'r gost i gael gafael ar y ddarpariaeth.

Er mwyn asesu'n fanwl p'un a oes digon o gyfleoedd chwarae i bob plentyn, bydd angen i'r Awdurdod Lleol nodi plant sydd â theuluoedd (am ba bynnag reswm) a fyddai'n cael trafferth talu iddynt gymryd rhan mewn amrywiaeth o gyfleoedd chwarae a gweithgareddau hamdden. Hefyd, bydd angen i'r Awdurdod Lleol nodi lefel cost y ddarpariaeth yn yr ardal ac i ba raddau y mae'n diwallu anghenion chwarae pob plentyn.

Dylai'r asesiad ddangos sut y caiff y materion hyn eu hystyried ac effeithiolrwydd mesurau a gymerir gan yr Awdurdod Lleol i liniaru'r effeithiau o eithrio a geir oherwydd taliadau.

Ni ddarperir adnodd penodol yma, ond argymhellir i'r Awdurdod Lleol gasglu gwybodaeth am gostau ar gyfer darpariaeth hamdden a'i chymharu gydag anghenion y boblogaeth leol.

2.6 Asesu Mater Dd: Mynediad i le/darpariaeth

Er ein bod, yn draddodiadol, yn gweld ffyrdd, strydoedd a phalmentydd fel y pethau sy'n darparu mynediad i gyrchfannau, dylem gydnabod nad dim ond cerdded a seiclo y mae plant; lle bynnag y bo modd, maent yn chwarae eu ffordd i'w cyrchfan. Bydd plant yn aros i chwarae wrth iddynt

fynd a byddant yn mynd oddi ar y llwybr mwyaf syth er mwyn chwarae gyda beth bynnag a welir ganddynt.

Gall cyflymder traffig a'r swm o draffig, cynlluniau stryd modern a chyffredinrwydd ceir wedi parcio beri rhwystrau mawr i blant wrth iddynt symud ar droed, ar feic neu gan ddefnyddio cymorth symudedd.

Mae'r Ddyletswydd Digonolrwydd Chwarae yn rhoi'r cyfle i Awdurdodau Lleol fynd i'r afael â rhai o'r rhwystrau a datblygu gwell mynediad i gyfleoedd chwarae, er mwyn galluogi mwy o blant i chwarae a symud o amgylch eu cymunedau.

Mynediad i gyfleoedd chwarae yng nghyd-destun y polisi trafndiaeth

Mae mynediad i le a darpariaeth a hygyrchedd hynny yn canolbwyntio ar y cyfle i blant gyrraedd eu cyrchfannau chwarae gan ddefnyddio systemau trafndiaeth sy'n hyrwyddo cerdded, seiclo a thrafnidiaeth gyhoeddus. Ni ddylai fod angen i blant ddibynnu ar oedolion i'w cludo oherwydd pellteroedd teithio gormodol neu ddiffyg llwybrau priodol a all gael eu defnyddio'n ddiogel.

Amgylcheddau – cynllunio strydoedd sy'n cefnogi cyfleoedd chwarae

Rhydd *Manual for Streets* ganllawiau i ymarferwyr sy'n ymwneud â chynllunio, dylunio, darparu a chymeradwyo strydoedd preswyl newydd, ac addasiadau i rai presennol. Y nod yw gwella ansawdd bywyd drwy waith dylunio da, sy'n creu strydoedd ac arnynt fwy o bobl. Mae *Manual for Streets* yn cynnig canllawiau dylunio sy'n pwysleisio swyddogaeth lle strydoedd, gan sicrhau eu bod yn canolbwyntio'n fwy ar bobl. Gall y fath gamau nid yn unig wella llwybrau cerdded a seiclo, ond, os ydynt yn rhai da, gallant wneud y stryd yn un sy'n croesawu cyfleoedd chwarae. Ymhlith y mesurau allweddol y gellir eu cyflwyno mae:

- Cyfyngu cyflymder traffig i 20 mya neu lai ar hyd strydoedd preswyl
- Gwella manau croesi a chyffyrdd
- Prosiectau megis Parthau Cartrefi mewn ardaloedd trefol, Lonydd Tawel mewn ardaloedd gwledig a strydoedd DIY Sustrans
- Datblygu proses hawdd ei defnyddio a gaiff ei hyrwyddo'n dda i gymunedau lleol neu ddarparwyr gwasanaethau drefnu cau ffyrdd yn fynych fel bod plant yn gallu chwarae yn eu cymunedau eu hunain.

Sicrhau cydweithio

Dylai cynlluniau trafndiaeth lleol neu ranbarthol roi blaenoriaeth i gerdded, seiclo neu drafnidiaeth gyhoeddus fforddiadwy er mwyn cael mynediad i ddarpariaeth chwarae. Byddant yn nodi cyrchfan taith sy'n briodol yn lleol. Fodd bynnag, dylent hefyd gydnabod bod strydoedd preswyl a llwybrau i ddarpariaeth yn fannau lle mae plant yn chwarae.

Dylai Cynlluniau Datblygu Lleol ymgorffori manau chwarae a darpariaeth ffurfiol a llwybrau iddynt.

Dylai gwasanaethau a sefydliadau datblygu cyfleoedd chwarae, gwasanaethau cymorth ieuenctid, cynllunwyr manau agored a darpariaeth cynllunio gwasanaethau eraill ystyried teithiau annibynnol gan blant wrth leoli darpariaeth.

Helpu pobl i gyrraedd mannau chwarae – ystyriaethau o ran safle

Dylai llwybrau i ac o ddarpariaeth ynghyd â'r mannau lle mae plant yn chwarae gael eu monitro a dylid dwyn ynghyd wybodaeth am y dull teithio. Fel y gall plant wneud y defnydd gorau o'u hamgylchedd i chwarae, dylid ystyried y wybodaeth ganlynol am safle wrth gynnal archwiliadau hygyrchedd:

- darperir mannau croesi addas i gerddwyr a seiclwyr ar hyd llwybrau i fannau chwarae plant
- mae llwybrau cerdded a seiclo presennol (yn enwedig rhai di-draffig) eisoes wedi'u cysylltu â pharciau, lleoedd chwarae a mannau agored eraill lle mae plant yn chwarae neu maent yn ymestyn iddynt
- digon o olau a goruchwyliaeth hamddenol ar y safle er mwyn sicrhau mynediad iddo drwy gydol y flwyddyn
- palmentydd yn arwain at y safle sy'n ddigon llydan ac yn glir
- caiff rheoliadau parcio eu plismona'n fynych er mwyn sicrhau bod pramiau, cadeiriau olwyn a theuluoedd yn gallu eu defnyddio'n ddidrafferth heb fod angen iddynt fynd ar y ffordd
- pa mor aml y mae gwasanaethau bws yn rhedeg i fannau chwarae a'u hygyrchedd i gadeiriau olwyn
- dylai cyfyngiadau seiclo, lle maent yn bodoli, gael eu hadolygu mewn parciau er mwyn sicrhau nas rhoddir ar waith yn ddiangen er mwyn galluogi plant i wneud defnydd llawn o'r lle i gael hwyl a dod yn gyfarwydd â reidio beic neu ddefnyddio math arall o olwynion
- dylid darparu mannau parcio beic ar safleoedd chwarae
- dylid ystyried parthau 20 mya ledled yr awdurdod mewn ardaloedd poblog, o ran eu cyfraniad posibl at ddiogelwch corfforol ac i helpu plant a'u rhieni i deimlo'n fwy diogel
- dylai mapiau cerdded a seiclo lleol ddangos y llwybrau i ddarpariaeth chwarae.

Dylai'r wybodaeth hon gael ei chroesgyfeirio ag arolygon lleol o blant er mwyn casglu eu barn.

Gwybodaeth; cyhoeddusrwydd; digwyddiadau

Mae gan yr Awdurdod Lleol ran i'w chwarae wrth gyfleu a hyrwyddo hawliau, anghenion a dymuniadau chwarae plant.

Mae Chwarae Cymru yn cynorthwyo sefydliadau sydd â diddordeb mewn chwarae plant yn lleol. Gall hyn eu helpu i gefnogi, datblygu a hyrwyddo amgylchedd lle y caiff pob plentyn y rhyddid, cyfle a lle i chwarae fel rhan annatod o'u cymuned bob dydd. Fel rhan o'r broses o ddatblygu adnoddau, efallai y bydd Awdurdodau Lleol a'u partneriaid am ddefnyddio'r taflenni gwybodaeth a deunydd arall a gaiff eu llunio gan Chwarae Cymru i lywio eu cyhoeddiadau eu hunain.

Nodi'r gynulleidfa

Yn ogystal â chyhoeddi gwybodaeth am ddigwyddiadau a chyfleoedd chwarae, dylai'r Awdurdod Lleol hefyd hyrwyddo pwysigrwydd chwarae i'r gymuned ehangach.

Mae angen i'r wybodaeth a gaiff ei llunio fod yn hygyrch i'r canlynol:

- Plant a phobl ifanc
- Rhieni
- Cymunedau lleol
- Y cyfryngau.

Gwybodaeth ar-lein

Drwy ddatblygu adran chwarae amlwg ar wefan yr Awdurdod Lleol a'i diweddarau'n rheolaidd, cyfrennir at y gwaith o roi gwybodaeth gynhwysfawr a dolenni perthnasol i blant a rhieni.

Mae'n bwysig annog unrhyw un sy'n ysgrifennu ar gyfer y we i fod yn gryno. Dylai'r tudalennau gwe fod yn ddiddorol a chynnwys digon o wybodaeth i alluogi oedolion i wneud penderfyniadau hyddysg ond, ar yr un pryd, fod yn ddigon syml i blant eu deall.

Arfer da o ran dylunio tudalennau gwe i blant a theuluoedd:

Dylai pob paragraff fod yn ddarn o destun hunangynhwysol. Ni ddylai paragraffau ddibynnu ar baragraffau eraill.

- Dylid dechrau gyda'r casgliad. Dylai'r wybodaeth bwysicaf ymddangos ar ddechrau brawddeg, paragraff a thudalen ac yna gael ei hegluro.
- Ceisiwch ddefnyddio cwestiynau'r newyddiadurwr i lunio brawddeg gyntaf y paragraff agoriadol:
 - Beth?
 - Pam?
 - Pryd?
 - Pwy?
 - Ble?
 - Sut?
- Defnyddiwch gynifer o gyfeiriadau â phosibl. Bydd is-benawdau a rhestrau'n helpu darllenwyr gwe.
- Rhowch ddolenni gwe fel rhan o'r stori.

2.7 Asesu Mater E: Sicrhau a datblygu'r gweithlu chwarae

Mae'n bwysig deall strwythur y gweithlu yn lleol er mwyn sicrhau a datblygu'r gweithlu chwarae yn yr Awdurdod Lleol. Dylai'r gymuned a'r sector gwirfoddol gyfrannu at arolygon gweithlu Awdurdodau Lleol fel cyflogwyr rhanddeiliaid allweddol ledled Cymru.

Mae'r gwaith o ddiffinio'r gweithlu chwarae yn heriol a gall amrywio ledled Awdurdodau Lleol. Yn fras, gallwn ddweud bod unrhyw un a gyflogir y mae ei rôl yn effeithio ar chwarae plant – y rhai sydd naill ai'n hwyluso eu chwarae'n uniongyrchol, yn dylunio cyfleoedd chwarae, neu sydd â'r pŵer i ganiatáu i blant chwarae neu ddim - gael ei gynnwys yn y gweithlu chwarae.

Bydd rhai rolau o fewn y gweithlu chwarae yn fwy hanfodol i lwyddiant nag eraill, megis y rheini ym maes gwaith chwarae, neu'r rhai sy'n gyfrifol am ddylunio a chynllunio trefi a mannau agored cyhoeddus.

Gwaith chwarae

Mae gwaith chwarae yn broffesiwn medrus iawn sy'n cyfoethogi ac yn gwella chwarae plant. Bydd yn digwydd lle mae oedolion yn cefnogi chwarae plant ond ni chaiff ei lywio gan ganlyniadau addysg na gofal rhagnodedig. (SkillsActive)

Mae SkillsActive, y Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer Hamdden, Dysgu a Lles Gweithredol, hefyd wedi rhoi diffiniad o leoliadau lle y cyflogir gweithwyr chwarae:

- Lleoedd Chwarae Antur
- Cynlluniau Chwarae yn ystod y Gwyliau
- Gofal y Tu Allan i'r Ysgol – gan gynnwys clybiau brecwast, clybiau cinio, clybiau ar ôl ysgol, clybiau gwyliau (3-16 oed)
- Canolfannau Chwarae Ysgolion a Chymunedau
- Prosiectau Chwarae Symudol
- Prosiectau Chwarae Arbenigol
- Canolfannau Chwarae Dan Do a Chanolfannau Gweithgareddau i Deuluoedd.

Lle bydd swyddi'n gorgyffwrdd rhwng y blynyddoedd cynnar, gofal plant a gwaith chwarae, argymhellir yn gryf y dylai unigolyn gyflawni unedau cymhwyso trosiannol.

Er enghraifft:

- A. Lle y caiff unigolyn ei gyflogi mewn clwb ar ôl ysgol sy'n darparu ar gyfer plant rhwng tair ac 11 oed, y cymhwyster a argymhellir yw gwaith chwarae, a dylai ei Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) argymhell y dylid ychwanegu ato gyda dyfarniad trosiannol yn y blynyddoedd cynnar a gofal plant
- B. Lle y caiff unigolyn ei gyflogi mewn meithrinfa ddydd sy'n darparu ar gyfer plant rhwng chwe mis a saith oed, ond ei fod yn treulio'r rhan fwyaf o'r diwrnod yn gofalu am blant o dan dair oed, a bod ei oriau ar ôl ysgol yn cynnwys gweithio gyda phlant rhwng tair a saith oed, y cymhwyster a argymhellir yw gofal, dysgu a datblygiad plant; a dylai ei DPP argymhell ychwanegu ato gyda dyfarniad trosiannol mewn gwaith chwarae.

Wrth i'n harfer newid i ddarparu ar gyfer chwarae plant, ni ddylem weld y cymwysterau hyn fel terfyn ond yn hytrach fel rhywbeth gofynnol, a dylem ddiffinio rôl yn ôl y broses y mae'n ei chefnogi neu'n ei hwyluso ac oedran y plant yn hytrach na'r lleoliad lle mae'n digwydd. Mae gweithwyr chwarae eisoes yn gweithio mewn mannau agored, er enghraifft mewn parciau ac ar draethau cyhoeddus mewn rolau fel Ceidwaid Chwarae. Gydag amser, gellir tybio ei bod yn briodol cyflogi gweithwyr chwarae mewn lleoliadau ysgol, lleoliadau gwaith ieuenctid a lleoliadau ehangach er mwyn cefnogi a hwyluso chwarae lle y ceir plant.

Gall Awdurdodau Lleol hefyd benderfynu mai'r ffordd ymlaen fydd gwella sgiliau staff presennol drwy gymwysterau gwaith chwarae neu raglenni chwarae wedi'u teilwra yn seiliedig ar y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol sydd ar gael i'r rheini sy'n gweithio gyda phlant drwy SkillsActive. Bydd gwella gwybodaeth yr ystod eang o weithwyr chwarae yn allweddol i ddod o hyd i atebion creadigol a gweithio'n effeithiol yn yr ystod eang o sectorau.

Mae angen lefelau gwahanol o gymwysterau ar weithwyr plant yn dibynnu ar natur y gwaith. Yn fras:

Mae cyrsiau sefydlu yn rhoi cyflwyniad i'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen ar weithiwr chwarae. Er nad ydynt yn cynnig cymhwyster achrededig, gallant fod yn fan cychwyn da i ddysgwyr heb unrhyw brofiad o weithio gyda phlant mewn lleoliad chwarae a hoffai wybod mwy a chael blas ar y math o waith sydd dan sylw.

Lefel 2 – ar gyfer gweithwyr chwarae sy'n gweithio dan oruchwyliaeth.

Lefel 3 – ar gyfer gweithwyr chwarae sy'n gweithio ar eu liwt eu hunain, yn cynllunio ac yn trefnu eu gwaith ac yn goruchwyllo eraill.

Lefel 4 ac uwch – ar gyfer ymarferwyr profiadol y mae disgwyl iddynt reoli neu ddatblygu lleoliad cymhleth neu nifer o leoliadau mewn ardal.

Mae SkillsActive wedi llunio rhestr gyfredol o gymwysterau derbyniol ar gyfer y gweithlu gwaith chwarae yng Nghymru (2011-2012) – i weithwyr chwarae, cyflogwyr gwaith chwarae, AGGCC, Llywodraeth Cymru a sefydliadau cenedlaethol.

Gellir cael rhestr o'r cymwysterau presennol ar gyfer gwaith chwarae yn:
www.playwales.org.uk/acceptedplayworkqualifications

Y gweithlu chwarae

Efallai mai'r ffordd orau o ddiffinio'r gweithlu chwarae yw pennu cyfres o gwestiynau a fydd yn rhoi atebion megis:

- Ble mae plant yn chwarae?
- Ble gallai plant chwarae petai hawl ganddynt?
- Sut mae plant yn cyrraedd yno?
- Pa oedolion sy'n gweithio yno?
- Pa oedolion sy'n gyfrifol am ddylunio'r lle?
- Pwy sy'n gyfrifol am oruchwyllo, cynnal neu lanhau'r amgylchedd?

Unwaith y caiff y cwestiynau hyn eu hateb, bydd rhestr hir o rolau sy'n effeithio ar chwarae plant megis athrawon, gweithwyr ieuenctid, wardeniaid parciau, cynllunwyr trefi, gweithwyr gofal a'r heddlu.

Bydd deall y rôl a chwaraeir ganddynt a sut mae'n effeithio ar chwarae plant yna'n diffinio pa sgiliau a dealltwriaeth y gall fod eu hangen i gefnogi chwarae plant. Er enghraifft, i'r heddlu bydd deall a ystyrir bod rhywbeth yn ymddygiad gwrthgymdeithasol yn bennaf neu'n ymddygiad chwarae plant yn gallu eu helpu i ymateb i sefyllfa'n fwy priodol.

Nid yw pob swyddogaeth sy'n effeithio ar chwarae plant yn gyfrifoldeb ar Awdurdodau Lleol – mae'r heddlu yn enghraifft dda o hyn. Fodd bynnag, gallai hyn fod yn enghraifft lle y gall gwaith da yn y gymuned feithrin partneriaethau dysgu er mwyn elwa plant, a all gael ei gynnwys yn yr Asesiad.

Dadansoddi Anghenion Hyfforddi

Mae Dadansoddiad o Anghenion Hyfforddi yn nodi amrywiaeth o faterion sy'n ymwneud â datblygu'r gweithlu megis:

- nifer y gweithwyr
- strwythur rheoli
- lefelau cymwysterau
- cyfleoedd hyfforddiant
- gwirfoddolwyr
- systemau ar gyfer cynllunio arfarniadau staff a gwerthuso darpariaeth ddysgu.

Bydd gan y rhan fwyaf o Awdurdodau Lleol strwythurau sefydledig eisoes ar gyfer dadansoddi anghenion hyfforddi a gynhelir yn amserol er mwyn cynllunio a chyllidebu datblygiad staff nawr ac yn y dyfodol. Gellir cael taflen ffeithiau ddefnyddiol ar ddadansoddi anghenion hyfforddi gan y Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu: www.cipd.co.uk/hr-resources/factsheets/identifying-learning-talent-development-needs.aspx

Fodd bynnag, er mwyn creu darlun Cymru gyfan o'r hyn sydd ei angen i uwchsgilio'r gweithlu chwarae a chynllunio gyda phartneriaid megis y sector Addysg Bellach, mae set ddata a rennir yn bwysig a gall gefnogi gwaith comisiynu ar y cyd. Bydd cynnwys arolwg o'r gweithlu wrth ddadansoddi anghenion hyfforddi yn darparu'r fath ddarlun.

Cyfeiriwch at adnodd 12 – Arolwg o'r Gweithlu: Templed o Holiadur Cyflogwyr

Holiadur i Gyflogwyr/Lleoliad

Fel rheol, dim ond cynnwys personél a gyflogir yn uniongyrchol gan yr Awdurdod Lleol a wna dadansoddiad o anghenion hyfforddi sy'n seiliedig ar arolwg o'r gweithlu. Fodd bynnag, bydd angen casglu ystod ehangach o ddata o leoliadau chwarae o fewn yr Awdurdod Lleol a gaiff eu rhedeg gan gyflogwyr eraill – y trydydd sector.

Yn ogystal â'r arolwg uchod o'r gweithlu, dylai'r Holiadur i Gyflogwyr/Lleoliadau ddwyn ynghyd y data ychwanegol sydd ei angen i sicrhau bod gwaith cynllunio llwyddiannus yn cael ei wneud ym maes dysgu gyda phartneriaid.

Mae hyn yn cynnwys niferoedd, demograffeg a materion recriwtio lleol. Dylai'r rhain gael eu cwblhau gan leoliadau gwaith chwarae ledled yr Awdurdod Lleol, pwy bynnag yw'r cyflogwr.

Gall yr Awdurdod Lleol hefyd ystyried mapio lleoliadau eraill lle mae plant yn chwarae yn ei ardal. Ymhlith y rhain mae carchardai fel ymwelwyr, ysbytai fel cleifion/ymwelwyr, canolfannau'r lluoedd arfog a chyfleusterau gofal eraill.

Mae'n bwysig gwneud hyn ar y cyd â'r arolwg uchod o'r gweithlu, er mwyn cael yr holl ddata sydd ei angen.

Cyfeiriwch at adnodd 13 – Holiadur i Gyflogwyr/Lleoliad

2.8 Asesu Mater F: Ymgysylltu â'r gymuned a chymryd rhan ynddi

- Gwybodaeth Gymunedol
- Digwyddiadau Cymunedol
- Ymgysylltu â'r Cyfryngau
- Cyfryngau Cymdeithasol

Gwybodaeth Gymunedol

Cyngor da ar gyfer cymuned sy'n croesawu cyfleoedd chwarae

Efallai y bydd y cyngor isod yn helpu i annog rhieni, gofalwyr a chymunedau lleol i gefnogi plant i chwarae allan yn hyderus y tu hwnt i ddigwyddiad wedi'i drefnu:

1. Gwneud yn siŵr bod plant yn gwybod rheolau'r ffordd

Mae strydoedd yn cyfrif am y rhan fwyaf o'r mannau cyhoeddus mewn cymunedau. Gallwn baratoi plant o oedran cynnar drwy ddweud wrthynt sut i fod yn ddiogel ar y ffordd a dangos hynny iddynt.

2. Edrych ar ein harferion gyrru ni ein hunain

Mae rhieni yn aml yn poeni am draffig wrth roi caniatâd i blant chwarae allan. Fel gyrrwyr, gallwn yrru'n ofalus yn yr un ffordd ag y byddem am i eraill yrru ar hyd y strydoedd preswyl lle mae ein plant yn chwarae.

3. Helpu plant i ddod i adnabod eu cymdogaeth

Os ydym yn dibynnu'n llai ar deithio mewn car ein hunain yn ein cymunedau lleol, bydd plant yn dod i adnabod eu strydoedd lleol. Gall cerdded i ac o gyfleusterau lleol megis siopau, yr ysgol a'r parc ein helpu i nodi atebion gyda'n plant i'w cadw'n ddiogel

4. Bod yn gyfeillgar yn y gymuned

Gallwn ddod i adnabod pobl leol, cymdogion a theuluoedd eraill, a chytuno i gadw llygad ar blant ein gilydd. Mae hyn yn meithrin ymdeimlad o gymuned ddiogel, gan alluogi mwy o blant i chwarae allan yn fwy, a bod yn fwy diogel wrth wneud hynny.

5. Ymddiried mewn plant

Gallwn ddod i gytundeb gyda phlant ynghylch ble ac am ba hyd y maent yn mynd allan i chwarae. Os ydynt yn adnabod eu hardal leol ac yn gwybod beth yw eu cyfeiriad a rhif ffôn, a phwy y gallant alw arno, a dweud faint o'r gloch yw hi, mae'n helpu i wneud y trefniadau hynny.

6. Bod yn realistig

Bydd cadw ein pryderon dan reolaeth a gwybod pa gymdogion a thrigolion lleol y gallwn alw arnynt os oes problem yn helpu. Mae buddiannau chwarae allan lawer uwch na'r risgiau

7. Gwneud newid

Gallwn ymuno ag eraill yn lleol i ymgyrchu dros newid ein cymdogaethau a all wneud ein hardaloedd lleol yn fannau lle gall plant chwarae allan ynddynt yn hyderus. Gallwn hyrwyddo pwysigrwydd chwarae allan i bobl eraill yn ein cymdogaethau ar lafar neu drwy gynnal digwyddiadau cymunedol a rhoi gwybod i eraill amdanynt.

Digwyddiadau Cymunedol

Mae digwyddiadau chwarae cymunedol yn ffordd dda o ddathlu hawl plant i chwarae. Yn ogystal â bod yn ddatliad, mae'r digwyddiadau hyn hefyd yn hyrwyddo'r angen i chwarae a gwella cyfleoedd chwarae i blant.

Mae digwyddiadau chwarae cymunedol yn codi ymwybyddiaeth o faterion lleol ac yn rhoi cyfle i blant a chymunedau cyfan ddod at ei gilydd.

Drwy sicrhau bod digwyddiadau cymunedol yn croesawu cyfleoedd chwarae, gall plant ac oedolion gwrdd a threulio amser gyda'i gilydd mewn ffordd ymlaciol. Pan roddir cyfle i blant chwarae maent yn cwrdd â phlant ac oedolion eraill yn y gymdogaeth gan ddod i'w hadnabod, dod yn gyfarwydd â hwy, meithrin ymddiriedaeth ac ymdeimlad o ysbryd cymunedol. Mae hyn yn helpu rhieni i fagu hyder i adael i'w plant chwarae allan ar adegau eraill o'r flwyddyn.

Gellir ystyried dathlu a mwynhau cyflawniadau yn ystod y digwyddiad er mwyn i bobl eraill wybod pa mor llwyddiannus ydoedd – cofiwch ddiolch i bawb a fu o gymorth. Gall ysgrifennu erthygl fer am y digwyddiad (gan gynnwys llun neu ddau) y gellir ei dosbarthu'n lleol helpu i hyrwyddo'r syniad o chwarae allan yn y gymuned y tu hwnt i'r digwyddiad. Efallai y gellir sôn am y digwyddiad mewn cylchlythyr lleol neu bapur bro er mwyn rhannu'r syniad ag eraill. Gall hyn helpu i atgoffa pobl o bwysigrwydd plant yn ein cymunedau a pha mor bwysig yw profiadau chwarae da yn yr awyr agored iddynt.

Ymgysylltu â'r Cyfryngau

Mae gan yr Awdurdod Lleol rôl i'w chwarae hefyd yn hyrwyddo hawliau plant i sylw cytbwys yn y cyfryngau.

Erthygl 13

Mae gan blant a phobl ifanc yr hawl i gael a rhannu gwybodaeth ar yr amod nad yw'r wybodaeth yn niweidiol iddynt hwy nac eraill.

Erthygl 17

Mae gan blant a phobl ifanc yr hawl i gael gwybodaeth ddibynadwy gan y cyfryngau torfol. Dylai teledu, radio a phapurau newydd ddarparu gwybodaeth y gall plant ei deall ac ni ddylent hyrwyddo deunydd a allai niweidio plant.

Mae'r Awdurdod Lleol a'i bartneriaid mewn sefyllfa dda i ddarparu darlun teg a llawn o newyddion, safbwyntiau, gweithgareddau a materion plant a phobl ifanc ym mhob rhan o'r cyfryngau.

Cyfryngau Cymdeithasol

Mae cyfryngau cymdeithasol yn fodd i gyfathrebu ag eraill gan ddefnyddio amrywiaeth o lwyfannau ar y we. Ymhlith y cyfryngau cymdeithasol poblogaidd mae:

- Facebook
- Bebo
- MySpace
- Twitter
- Flickr
- Creu blog
- Creu ac uwchlwytho podlediad
- Rhoi fideo ar YouTube.

Mae cyfryngau cymdeithasol wedi cael effaith ddramatig ar y ffordd y mae pobl yn canfod, darllen a rhannu newyddion a gwybodaeth. Mae plant yn hynod fedrus wrth ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu â'u cymheiriaid. Gall yr Awdurdod Lleol annog plant i ddefnyddio'r un opsiynau i ddylanwadu ar y sawl sy'n gwneud penderfyniadau a hyrwyddo eu straeon newyddion da.

Asesu Mater Ff: Chwarae yn unol â phob polisi perthnasol ac agenda weithredu

Mae chwarae plant yn fater i lunwyr polisi, cynllunwyr a darparwyr o fewn holl feysydd polisi Awdurdod Lleol. Yn ogystal â Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, ceir nifer o bolisiau eraill, y mae eu gweithredu hefyd yn cyfrannu at y nod o greu cymdeithas sy'n croesawu cyfleoedd chwarae ac yn cynnig ystod eang o gyfleoedd chwarae rhydd.

Bwriedir i'r adran hon ddarparu'r rhesymeg a syniadau ymarferol sy'n seiliedig ar ddarpariaeth a all gael eu defnyddio gan yr Awdurdod Lleol i gyflwyno'r achos dros gynnwys chwarae yn y meysydd polisi amrywiol, er mwyn gwella cyfleoedd chwarae plant.

Addysg ac ysgolion

Yn y rhan fwyaf o achosion, mae cyfleusterau ysgol presennol yn cynnig cyfleoedd sylweddol i ddiwallu nid yn unig anghenion dysgu pob dysgwr ond hefyd lawer o anghenion cymdeithasol a hamdden y gymuned.

Dywed plant wrthym mai amser chwarae yw'r rhan bwysicaf o'r diwrnod ysgol iddynt. Mae llawer o blant hefyd yn dweud wrthym mai yn yr ysgol y cânt y prif gyfle i dreulio amser yn chwarae gyda'u ffrindiau. Mae ysgolion yn aml yn cynnig lle delfrydol i blant chwarae a rhyngweithio â'i gilydd. Mae'n bwysig meithrin elfen chwarae gadarn er mwyn darparu amgylchedd ysgol iach.

Rhoddir cyfle allweddol i blant chwarae gyda'u ffrindiau yn rheolaidd yn ystod amser chwarae yn yr ysgol, gan gynnwys mewn clybiau brecwast. Yn draddodiadol, roedd amser chwarae yn yr ysgol yn un o'r adegau pan allai plant ryngweithio mewn amgylchedd cymharol ddiogel heb fod oedolion yn ei reoli ryw lawer. Fodd bynnag, yn fwy diweddar, mae'r cyfleoedd hyn wedi lleihau am fod llai o amser yn cael ei neilltuo i 'amser chwarae'. Dywed plant wrthym eu bod yn aml yn rhuthro i fwyta eu cinio yn yr ysgol er mwyn cael mwy o amser i chwarae. Tynnir amser chwarae yn ôl fel

cosb yn aml. Mae amseroedd chwarae mewn ysgolion cyn bwysiced i blant ag y mae amseroedd egwyl i staff ysgol. Fel oedolion, mae amser chwarae mewn ysgol yn rhan o 'gydbwysedd bywyd a gwaith' plentyn.

Mewn sawl ardal, boed yn drefol neu'n wledig, gall tir ysgol gynnig man agored cyhoeddus niwtral yn y gymuned leol. Gall mynediad i'r fath le wella'r cyfleoedd sydd ar gael i bob rhan o'r gymuned o amgylch yr ysgol o ran cyfleoedd hamdden a chwarae yn yr awyr agored.

Ar y cyfan, mae plant yn treulio mwy o amser yn yr awyr agored ac yn gwneud mwy o ddefnydd ohono nag oedolion, felly mae effaith gadarnhaol mynediad i dir ysgol yn gallu bod hyd yn oed yn fwy nag y gallai fod i oedolion.

Sut ...

Gallai'r Awdurdod Addysg Lleol (AALI) rannu gwybodaeth â phenaethiaid ysgolion a byrddau llywodraethwyr gan amlygu:

- gwerth hyfforddiant a chymorth chwarae i oruchwylwyr amser cinio
- yr angen i ystyried cynnwys mannau chwarae sydd wedi'u cynllunio'n dda pan gaiff gwelliannau cyfalaf eu gwneud
- bod digon o amser yn cael ei neilltuo i amser cinio ac amser chwarae
- manteision diogelu amser chwarae yn hytrach na'i dynnu yn ôl fel 'cosb'
- manteision caniatáu digon o amser i chwarae, yn hytrach na lleihau'r amser a neilltuir i chwarae.

Cynllunio Gwlad a Thref

Ym mhob awdurdod cynllunio lleol, y Cynllun Datblygu Lleol statudol yw'r man cychwyn wrth ystyried ceisiadau cynllunio i ddatblygu neu ddefnyddio tir. Rhydd y fframwaith hanfodol ar gyfer penderfyniadau cynllunio. Dylai'r angen am fannau chwarae gael ei drafod a'i nodi yn y cynllun hwn.

Gellir defnyddio'r system gynllunio leol i wella mynediad i gyfleoedd chwarae i blant a'u cynnwys yn y gwaith o lunio eu cymunedau.

Gall safonau ar gyfer darpariaeth chwarae gael eu datblygu'n lleol. Mae pennu safonau lleol cadarn yn seiliedig ar asesiadau o angen a mannau chwarae presennol yn sail i ddatrys diffygion meintiol, ansoddol a mynediad.

Sut ...

Dylai Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLlau) gynnwys safonau a bennwyd yn lleol ar gyfer mannau chwarae. Bydd ymgorffori'r safonau hyn mewn dogfennau CDLI hefyd yn helpu i ddiogelu mannau chwarae sy'n bodoli eisoes. Gall Dogfennau Cynllunio Atodol roi cyngor a chanllawiau manwl i ddatblygwyr a phobl leol ar yr hyn a ddisgwylir o ran ansawdd, maint a hygyrchedd darpariaeth mannau chwarae newydd, ac unrhyw gyfraniadau angenrheidiol o ran cynnal a chadw.

Egwyddorion i'w hystyried wrth bennu safonau mannau chwarae:

Mynediad: Dylai pob plentyn, o adeg ei eni i 17 oed, allu defnyddio o leiaf dri math o fannau chwarae o ansawdd da sydd o fewn pellter cerdded neu seiclo diogel a hawdd i'w gartref. Dylai hyn gynnwys:

- man chwarae ar garreg y drws: ardal fechan, y gellir ei gweld o gartref, lle mae plant, yn enwedig plant bach, yn gallu chwarae a bod oedolion hysbys yn gallu cadw llygad arnynt – fel arfer o fewn munud o gerdded i gartref y plentyn
- man chwarae lleol: ardal mwy o faint y gellir ei chyrraedd yn ddiogel gan blant sy'n dechrau teithio ar eu pen eu hunain a chyda ffrindiau, heb i oedolion eu tywys ac i oedolion â phlant bach gerdded iddi'n hawdd – fel arfer o fewn pum munud o gerdded i gartref y plentyn
- man chwarae yn y gymdogaeth: ardal neu gyfleuster mwy o faint at ddibenion hamdden anffurfiol y gall plant, sy'n gyfarwydd â theithio pellteroedd hwy ar eu pen eu hunain, ei gyrraedd yn ddiogel a chymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden anffurfiol gyda'u cymheiriaid a chael ystod ehangach o brofiadau chwarae – fel arfer o fewn 15 munud o gerdded i gartref y plentyn

Ansawdd: Gall safonau lleol sy'n ystyried gwerth chwarae, y lleoliad a gofynion cynnal a chadw gael eu datblygu gan ddefnyddio'r Adnodd Asesu Mannau Chwarae **Atodiad 10**. Dylai'r safonau hyn fod yn seiliedig ar y dybiaeth fod amgylchedd chwarae da yn un hyblyg y gellir ei addasu ac sy'n cynnwys nodweddion ffisegol diddorol amrywiol sy'n gwneud y gorau o'r cyfle i gymdeithasu, bod yn greadigol, dangos dyfeisgarwch, ateb her a gwneud dewisiadau. Mae'n fan cyhoeddus yr ymddiriedir ynddo lle mae plant yn teimlo'n rhydd i chwarae yn eu ffordd eu hunain, ar eu telerau eu hunain.

Nifer: Mae angen i bob Awdurdod Lleol lunio ei safonau gofodol lleol ei hun ar gyfer mannau chwarae, a lywir gan nodweddion yr ardal ac anghenion hysbys y boblogaeth. Dylai hyn fod yn seiliedig ar y dybiaeth y dylai unrhyw blentyn fod yn gallu chwarae'n rhydd a chymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau hamdden yn eu cymunedau ar adegau ac mewn mannau sy'n diwallu eu hanghenion.

Traffig a Thrafnidiaeth

Yn ôl rhieni, gofalmwyd a phlant mae ofn damweiniau ffyrdd yn rhwystr allweddol i chwarae yn yr awyr agored. Mae angen i blant gael mannau chwarae sydd â llwybrau mynediad diogel ac sy'n annog teithio annibynnol. Dylai mannau chwarae o ansawdd da hefyd fod yn rhydd rhag sŵn a llygredd o draffig ar y ffyrdd. Mae creu amgylchedd adeiledig, sy'n annog cerdded a seiclo, hefyd o fudd i lefelau gweithgarwch corfforol.

Mae traffig ar y ffyrdd yn rhwystr mawr i chwarae plant am sawl rheswm. Mae'n atal mynediad i fannau chwarae oherwydd ofn gwirioneddol a chanfyddedig damweiniau ffordd; mae'n atal teithiau ar droed neu ar feic; mae'n lleihau ansawdd mannau chwarae oherwydd sŵn a llygredd aer o ffyrdd cyfagos; ac mae ffyrdd prysur yn golygu bod llai o gyfleoedd anffurfiol i gwrdd ag eraill. Mae'r canllawiau ym Mholisi Cynllunio Cymru (Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 18) yn cydnabod pwysigrwydd hyrwyddo amodau ffyrdd mwy diogel sy'n arwain at well diogelwch a chyfleoedd i blant chwarae.

Sut ...

Ymdriniwyd â'r fiwrocratiaeth sydd ynghlwm wrth gau ffyrdd dros dro i ryw raddau. Mewn rhai ardaloedd, bu hawl gan drigolion wneud cais i gau ffyrdd yn ffurfiol deirgwaith y flwyddyn ar gyfer partïon stryd neu weithgareddau eraill yn y gymuned.

Gall grwpiau cymunedol lleol gael cefnogaeth i gau ffyrdd yn amlach am ychydig oriau ar ôl ysgol neu ar y penwythnos gan grwpiau o gymdogion a chymunedau, heb fod angen gwneud cais bob tro. Gellir cau ffyrdd dros dro am gyfnod byr (rhwng dwy neu dair awr) gydag un neu ddau stiward sy'n wirfoddolwyr wrth bob pwynt cau ar y ffordd. Y syniad yw rhoi man diogel ger y cartref ar adeg pan fo angen i blant chwarae a phan eu bod yn dymuno gwneud hynny. Ar y dechrau, bydd gweithio gyda'r gymuned i gytuno ar gau stryd yn helpu plant, rhieni a'r gymuned ehangach i ymgyswrttu â'r syniad y gall adfeddiannu'r stryd weithio. Gydag amser, gellir rhoi mynediad i gerbydau trigolion a bydd y stiwardiaid yn gyfrifol am sicrhau bod hyn yn digwydd yn ddiogel. Y nod yw amharu ar fywyd arferol cyn lleied â phosibl, gan ddangos nad yw chwarae ar y stryd yn gofyn am lawer mwy na chytundeb ymhlith modurwyr i flaenoriaethu diogelwch plant a chydabod eu hawl i chwarae.

Iechyd a Lles

Mae chwarae yn cyfrannu at les corfforol plant; mae chwarae gweithredol yn un o'r ffyrdd hawsaf a mwyaf naturiol y gall plant o unrhyw oed wneud y lefelau angenrheidiol o weithgarwch corfforol. Pan gaiff plant y cyfle i chwarae maent yn debygol o fod yn gorfforol weithredol drwy redeg, neidio, dawnsio, dringo, cydbwyso, cloddio, codi, siglo, sleidio, gwthio a thynnu. Chwarae gweithredol yw'r math mwyaf cyffredin o weithgarwch corfforol a weir gan blant y tu allan i'r ysgol ac efallai mai chwarae heb strwythur yw un o'r mathau gorau o weithgarwch corfforol i blant.

- Mae ymarfer corff parhaus ac amrywiol yn datblygu stamina (chwaraeon anffurfiol, gemau cwrso, dringo, adeiladu).
- Mae dringo yn datblygu cryfder a sgiliau cydsymud a chydbwyso, tra bod neidio yn cyfrannu at ddwysedd esgyrn.
- Pan fydd plant yn ailadrodd gweithred fel rhan o'u chwarae, byddant yn aml yn calibradu – dysgu sut i reoli cyrff sy'n tyfu – yn ogystal â datblygu ystwythder, sgiliau cydsymud a hyder.

Drwy chwarae, gellir rhyngweithio â chymheiriaid sy'n elfen bwysig o les cymdeithasol ac emosiynol. Pan fydd plant yn chwarae ar eu pen eu hunain, maent yn dechrau cydnabod eu hemosiynau, eu teimladau a'u meddyliau eu hunain, yn ogystal â sut i'w rheoli. Mae plant hefyd yn dysgu sut i deimlo'n gyfforddus ar eu pen eu hunain ynghyd â dysgu ffyrdd o reoli diflastod ar eu pen eu hunain. Drwy chwarae, bydd plant yn profi amrywiaeth o emosiynau gan gynnwys rhwystredigaeth, penderfyniad, cyflawniad, siom a hyder, a thrwy ymarfer gallant ddysgu sut i reoli'r teimladau hyn.

- Mae creu a phrofi cyfleoedd chwarae ansicr neu sy'n peri risg yn datblygu gwydnwch plant a'u gallu i addasu a gall gyfrannu at eu hyder a'u hunan-barch.
- Drwy gymdeithasu â'u ffrindiau ar eu telerau eu hunain caiff plant gyfle i ddatblygu gwydnwch emosiynol, cael hwyl ac ymlacio.
- Mae chwarae ffantasi yn fodd i ddefnyddio'r dychymyg a bod yn greadigol, ond gall hefyd alluogi plant i wneud synnwyr o sefyllfaoedd anodd yn eu bywydau sy'n peri gofid iddynt yn ogystal ag 'ymdopi' â hwy.

Sut ...

Gall mentrau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles Lleol:

- Hyrwyddo pwysigrwydd chwarae mewn ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd iechyd.
- Ystyried yr effaith ar chwarae plant wrth Asesu'r Effaith ar Iechyd a'r Effaith ar Gydraddoldeb ym maes Iechyd.
- Rhoi gwybodaeth i rieni sy'n amlygu gwerth chwarae a'i rôl mewn ffordd o fyw iach.
- Creu cysylltiadau â gwasanaethau chwarae lleol.
- Nodi arian partneriaeth i gefnogi mentrau chwarae lleol.

Tlodi Plant

Yn Strategaeth Tlodi Plant Cymru (2011), mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr hawl i chwarae a'i gyfraniad at ddatblygiad a gwydnwch plant. Mae'r strategaeth yn gwerthfawrogi chwarae fel elfen annatod o ddatblygiad plant a gall fod yn ffactor diogelu cryf ym mywydau plant. Amlyga fod chwarae yn gallu, i raddau, ddiogelu plant rhag yr agweddau negyddol ar dlodi a'i fod yn eu galluogi i ddatblygu eu gwydnwch i anawsterau ac ansicrwydd yn eu bywydau. Mae'r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn galluogi Awdurdodau Lleol i gydnabod y cyfraniad a wneir ganddynt i drechu'r tlodi profiad a wynebwr gan lawer o blant yng Nghymru.

Sut ...

Gall yr Awdurdod Lleol ddarparu eiddo a safleoedd y cyngor am ddim i sefydliadau sy'n darparu cyfleoedd chwarae am ddim (ar y pwynt mynediad) i blant, gan gytuno â'r darparwr y bydd ffioedd mynediad yn parhau am ddim ar y pwynt mynediad.

Y Blynnyddoedd Cynnar a Gofal Plant

Yn draddodiadol, mae lleoliadau blynnyddoedd cynnar a gofal plant wedi deall a chydabod pwysigrwydd chwarae i blant bach. Fodd bynnag, dywed rhai bod pryderon rhieni ynghylch gweithgareddau strwythuredig a chyfundrefnol wedi eu hatal rhag darparu nifer y cyfleoedd chwarae rhydd sydd eu hangen ar blant ac y maent yn eu dymuno. Ceir cydberthnasau da a chyswllt rheolaidd rhwng y lleoliadau hyn a rhieni ac maent mewn sefyllfa ddelfrydol i gefnogi gwell gwybodaeth am bwysigrwydd chwarae – yn y lleoliadau, yn y cartref ac yn annibynnol, pan fo plant yn gymwys i wneud hynny.

Sut ...

- Darparu cyfleoedd rheolaidd i blant yn eu gofal fanteisio ar gyfleoedd chwarae a ddewisir o wirfodd
- Sicrhau bod staff yn cael cymorth i ddeall a chydabod manteision a phwysigrwydd chwarae a, lle y bo'n briodol, eu bod yn cael cymorth i ennill cymhwyster gwaith chwarae
- Deall goblygiadau amddifadedd chwarae
- Ystyried y rhwystrau i ddarparu cyfleoedd chwarae a ddewisir o wirfodd mewn lleoliadau a goresgyn y rhwystrau hynny
- Defnyddio'r Pecyn Cymorth hwn i asesu ansawdd amgylchedd chwarae'r plant yn eu gofal

Polisïau a mentrau i'r teulu

Gellir ymdrin â llawer o'r problemau sy'n peri her i rieni (er enghraifft rheoli agweddau ar ymddygiad plant) drwy wella mynediad plant i gyfleoedd chwarae sy'n diwallu eu hanghenion a manau chwarae o ansawdd. Mae cyd-chwarae yn helpu teuluoedd i feithrin cydberthynas glos a rhydd darpariaeth chwarae gyfle i blant ac oedolion ehangu eu rhwydweithiau cymdeithasol a chymheiriaid, y gwyddom ei fod yn cynyddu gwydnwch.

Sut ...

Dylai darpariaeth chwarae gael ei chynnwys mewn mentrau i'r teulu – mae'n aml ar gael pan fo ei hangen fwyaf ar deuluoedd (ar ôl ysgol, yn ystod gwyliau ysgol, gyda'r nos ac ar y penwythnos) gan lenwi bylchau pan nad oes gwasanaethau eraill ar gael.

Dylai rhieni gael eu hannog a'u helpu i fynd i brosiectau chwarae a gaiff eu staffio. Rhydd hyn gyfle i arsylwi eu plant yn chwarae a siarad â gweithwyr chwarae a all wneud synnwyr o ymddygiad chwarae – yna, bydd rhieni yn teimlo'n fwy hyderus ac yn fwy abl i allu rheoli anghenion chwarae eu plant i ffwrdd o'r ddarpariaeth a gaiff ei staffio.

Dylai grwpiau cymorth i deuluoedd a rhieni roi gwybodaeth i rieni, sy'n eu helpu i ymdrin â phryderon ynghylch gadael eu plant i fynd allan i chwarae.

Polisïau a mentrau sy'n pontio'r cenedlaethau

Mae llawer o sefydliadau yn darparu gweithgareddau strwythuredig sy'n dwyn ynghyd bobl hŷn ac iau yn llwyddiannus. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r gwaith yn dueddol o gael ei arwain gan y sector pobl hŷn a gall fod yn dueddol o ganolbwyntio ar ddyhead i leddfu pryderon pobl hŷn.

Fodd bynnag, gall plant hefyd ofni cenedlaethau hŷn.

Mae'n bosibl i oedrannau gwahanol – er enghraifft, plant pump oed a 15 oed – gymysgu heb wrthdaro ac mae hynny'n digwydd. Yn wir, bydd plant yn eu harddegau yn aml yn ofalgar tuag at blant iau. Myth yw dweud bod plant yn eu harddegau yn dychryn plant iau fel mater o drefn. Fodd bynnag, mae llawer o blant iau yn ofni plant hŷn, yn rhannol, neu, mewn rhai achosion, yn bennaf am fod y cyfleoedd i ymgynnull yn yr un man wedi lleihau.

Mae llawer o ardaloedd wedi sefydlu a datblygu manau chwarae 'ar sail oedran'. Mae ceisio gosod cyfyngiadau oedran ar fan chwarae yn creu'r amodau ar gyfer tensiwn a gwrthdaro rhwng cenedlaethau – bydd oedolion sy'n gweld y grŵp oedran 'anghywir' mewn man ar gyfer plant bach yn gweld hyn fel 'ymddygiad gwrthgymdeithasol'. Mae hefyd yn creu'r amodau ar gyfer tensiwn rhwng plant yn eu harddegau ac awdurdod. Mae hyn yn rhannol am fod man a ddynodir gan oedran yn cynrychioli rheol na ellir ei gorfodi'n ymarferol – mae plant hŷn yn hoffi 'cymdeithasu' ger eu cartrefi gyda ffrindiau yn aml ar adeg o'r dydd (megis gyda'r nos) pan fydd plant bach iawn gan amlaf y tu mewn.

Sut ...

Dylid pontio'r cenedlaethau wrth gynllunio darpariaeth chwarae er mwyn mynd i'r afael â phryderon plant yn ogystal ag aelodau eraill o'r gymuned.

Dylai mannau chwarae gael eu cynllunio mewn ffordd amlswyddogaethol a chynnig amrywiaeth o gyfleoedd hamdden a chwarae i ddefnyddwyr o bob oed, yn ogystal â sicrhau eu bod yn croesawu chwarae.

Datblygu Cymunedol

Gwelir cydlyniant cymunedol pan fydd grwpiau gwahanol o bobl yn cyd-dynnu, yn cael cyfleoedd tebyg mewn bywyd ac yn ymddiried yn ei gilydd a'u sefydliadau lleol.

O ran plant a'u mynediad i gyfleoedd chwarae, mantais byw mewn cymuned gydlynol yw bod plant yn teimlo bod eu barn yn cael ei hystyried a bod eu hanghenion yn cael eu diwallu. Mae plant yn deall yr hyn a ddisgwylir ganddynt fel aelodau o'u cymuned, ond yn fwy pwysig, mae oedolion sy'n byw ac yn gweithio yn y gymuned honno yn deall effaith eu gweithredoedd ar ymdeimlad plant o fod â hawl i chwarae ac o berthyn. Pan na fydd oedolion yn deall chwarae plant, mae'n haws i gamddealltwriaeth ddatblygu'n densiwn.

Mae darpariaeth chwarae'n cyfrannu at gydlyniant cymunedol. Po fwyaf cyfeillgar y bydd yr amgylchedd i blant, y mwyaf y byddant yn chwarae yn yr awyr agored. Caiff hyn effaith wirioneddol ar leihau canfyddiadau o ynyswch, nid dim ond i'r plant eu hunain ond hefyd i'r gymuned ehangach. Yn ogystal â bod yn ddinasyddion y dyfodol, mae plant yn ddinasyddion nawr ac maent yn haeddu gweld eu hanghenion chwarae yn cael eu diwallu.

I aelodau'r gymuned, rhydd darpariaeth chwarae gyfleoedd pwysig i gwrdd ag aelodau eraill o'r gymuned sydd mewn sefyllfa debyg ac o feddylfryd tebyg. Gall darpariaeth chwarae wneud cyfraniad pwysig i ryngweithio cymdeithasol a lleihau canfyddiadau o ynyswch ynghyd â gwirionedd y fath sefyllfa.

Sut ...

Yn aml iawn, cymunedau lleol sydd yn y sefyllfa orau i ymateb i anghenion chwarae plant lleol, gyda chymorth y sector gwirfoddol. Dylai pob Awdurdod Lleol nodi faint o gydweithio a chymorth sydd ar gael fel na ddirprwyir yr holl gyfrifoldeb am chwarae plant.

Diogelwch Cymunedol

Mae'r cyfyngiad ar ryddid plant i symud drwy'r camddefnydd posibl o orchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol (ASBOs) yn y DU yn destun pryder mawr i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Mae diogelwch cymunedol yn cyfrannu at gydlyniant cymunedol ac mae'n effeithiol wrth helpu i feithrin gwell dealltwriaeth o chwarae plant ac ymddygiad chwarae plant. Mae dealltwriaeth well o chwarae plant a darparu mannau chwarae yn helpu cymunedau i wahaniaethu rhwng ymddygiad chwarae ac ymddygiad arall.

Drwy alluogi plant i fwynhau cyfleoedd chwarae creadigol a chymhellol yn eu cymunedau, byddant yn llai tebygol o geisio ffyrdd amgen o fodloni eu dyhead naturiol i chwarae, teimlo cyffro, her ac antur. Yn rhy aml o lawer, bydd y fath ffyrdd amgen yn peri gwrthdaro â byd yr oedolyn.

Sut ...

Dylai grwpiau Heddlu a Chymunedau Gyda'i Gilydd (PACT) gael eu hannog i nodi ffyrdd o ymgysylltu â phlant er mwyn sicrhau bod y penderfyniadau a wneir yn diwallu eu hanghenion a bod gan blant well dealltwriaeth o faterion a phryderon ehangach sy'n ymwneud â diogelwch cymunedol.

Dylai grwpiau PACT nodi ffyrdd ymarferol o helpu plant i deimlo'n fwy diogel yn eu cymunedau.

Iechyd a Diogelwch

Mae chwarae plant, o reidrwydd, yn cynnig cyfle i fentro ac ateb her ac mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) yn cefnogi hyn gyda'r datganiad isod a gyhoeddwyd yn 2005:

Mae a wnelo iechyd a diogelwch synhwyrol â rheoli risg nid ei dileu. Nid yw'n fwriad gan HSE ddileu pleserau syml ar ba bynnag gost. Rydym yn cydnabod buddiannau chwarae, sydd o reidrwydd yn cynnwys rhywfaint o risg, i ddatblygiad plant ac ni ddylid aberthu hyn er mwyn ceisio cyflawni'r nod anghyraeddadwy o sicrhau diogelwch llwyr.'

Pwyntiau allweddol:

- Mae gwerth cynhenid mewn galluogi plant i brofi ansicrwydd a her bersonol drwy chwarae.
- Mae angen i blant deimlo'n rhydd i fentro a phrofi her o'u gwirfodd a dim ond os gadawn i rywfaint o ansicrwydd barhau y byddant yn gallu gwneud hyn.
- Nod y ddarpariaeth chwarae a gaiff ei chreu gennym yw helpu plant i brofi lefelau rhesymol o risg eu hunain.
- Mae angen taro'r cydbwysedd cywir rhwng sicrhau bod lefelau priodol o ddiogelwch ar waith a chynnal lefelau rhesymol o ansicrwydd.
- Anelwn at reoli risg er mwyn sicrhau, lle bynnag y bo'n rhesymol bosibl, fod y perygl o anaf i blant yn gymesur â'r manteision posibl sy'n gysylltiedig â'r sefyllfa.
- Bydd rheolaethau'n rhesymol ac yn realistig tra'n sicrhau bod risgiau diangen yn cael eu lleihau cymaint â phosibl.
- Mae systemau rheoli risg yn ymgorffori nifer o wahanol elfennau sy'n cydweithio i greu cylch parhaus, gan wella ein harfer.
- Gall plant reoli peth risg eu hunain a bydd eu gallu i wneud hyn yn datblygu wrth iddynt fagu profiad.

Asesu Risgiau a Buddiannau

Mae asesu risgiau a buddiannau yn ffordd o asesu risg sydd hefyd yn ystyried y budd a gaiff plentyn o wynebu risg benodol. Mae hyn yn ystyriaeth resymol o ran darpariaeth chwarae plant.

Er enghraifft, y risgiau sy'n gysylltiedig â ffrâm ddringo yw llithro a chwympo oddi ar y cyfarpar. Ymhlith y mesurau y gallem eu rhoi ar waith i leihau'r risgiau mae arwyneb sy'n lleihau effaith ardrawiad, osgoi uchderau cwympo rhydd y tu hwnt i fesur penodol a sicrhau bod llaw a throedleoedd priodol.

Ond pam y byddem yn gadael i blant ddringo i uchder beth bynnag? Dyma ble yr ystyriwn y buddiannau. Mae'r buddiannau tebygol yn cynnwys: datblygu cryfder corfforol a sgiliau cydbwysu a chydysymud; plant yn dysgu sut i asesu risgiau eu hunain a phrofi cyffro.

Drwy gynnwys asesiad risg yn ein proses rheoli risg, dangosir ein bod wedi ystyried yr holl ffactorau hyn, sy'n gwella'r man chwarae.

Yn ddiweddar, mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a'r Fforwm Diogelwch Chwarae wedi cyhoeddi cyd-ddatganiad lefel uchel.

Gellir lawrlwytho'r datganiad lefel uchel yn: <http://www.hse.gov.uk/entertainment/childs-play-statement.htm>

Sut ...

Gallai'r Awdurdod Lleol ystyried darparu cynllun yswiriant ambarél â nod ansawdd i sefydliadau eraill sy'n darparu cyfleoedd chwarae mewn cymunedau lleol. Byddai hyn yn cyfrannu at ddull gweithredu mwy cydlynol o fewn yr Awdurdod Lleol cyfan.

Gallai'r Awdurdod Lleol ddatblygu polisi rheoli risgiau a buddiannau. Er bod polisi rheoli risg yn mynd y tu hwnt i ofynion HSE o ran cynnal asesiad risg, rhydd fframwaith cadarn ar gyfer y ffordd y mae sefydliad yn rheoli risg dros amser ac yn defnyddio'r wybodaeth a gaiff ei meithrin i ddiweddarau a gwella asesiadau risg (papur) gweithredol.

Cyfeiriwch at adnodd 14 – Polisi Enghreifftiol ar gyfer Rheoli Risgiau a Buddiannau

Mae'r polisi enghreifftiol hwn yn darparu fformat y gellir ei addasu at ddefnydd lleol. Mae'r polisi yn nodi'r ymagwedd risgiau a buddiannau tuag at reoli risg ac yn caniatáu mewnbynnu gweithdrefnau ar gyfer agweddau penodol ar y polisi, er enghraifft amllder arolygiadau a rhaglenni cynnal a chadw rheolaidd.

3. Datblygu'r Cynllun Gweithredu ar Ddigionolrwydd Cyfleoedd Chwarae

Cytuno ar Flaenoriaethau

Bydd y **Fframwaith Asesu Digionolrwydd Cyfleoedd Chwarae** wedi nodi amrywiaeth o gamau i lywio'r Cynllun Gweithredu. Mae'n debygol y bydd rhestr hir ac amrywiol o gamau i'w cymryd mewn amser byr.

Bydd angen cytuno ar y blaenoriaethau fel rhan o'r broses o lunio'r Cynllun Gweithredu.

I wneud hyn, bydd angen i'r Gweithgor Digionolrwydd Cyfleoedd Chwarae nodi meini prawf a chytuno arnynt. Dylai meini prawf fod yn benodol, yn realistig ac yn gyflawnadwy.

Ymhlith y ffactorau y gellid eu hystyried wrth bennu meini prawf mae:

- a yw hyn yn angen dybryd (h.y. a oes amddifadedd chwarae difrifol?)
- a yw'n dra thebygol y gallwn wneud gwahaniaeth mawr drwy gymryd y cam hwn?
- a yw'r camau yn mynd i'r afael ag anghenion chwarae grŵp agored i niwed?
- a oes gennym yr adnoddau i gymryd y cam hwn?
- a allwn ddechrau gweithio ar hyn yn syth?

Efallai y bydd hefyd yn ddefnyddiol ystyried y canlynol:

- A yw unrhyw bartner eisoes yn gweithio ar hyn lle gallem weithio gydag ef neu ei gefnogi?
- Pa gostau sy'n gysylltiedig â chymryd y cam hwn?
- Beth yw manteision cymryd y cam hwn?
- A oes gennym y sgiliau a'r arbenigedd yn lleol i gymryd y cam hwn?

Unwaith y cytunir ar bedwar neu bump maen prawf, gall Awdurdodau Lleol ddefnyddio proses a bennir yn lleol (megis Dadansoddiad SWOT neu rywbeth tebyg) i flaenoriaethu camau gweithredu.

Casglu a chyflwyno data

Wrth gasglu a chofnodi canlyniadau'r Asesiad o Ddigionolrwydd Cyfleoedd Chwarae, mae'n ddefnyddiol sefydlu proses gytûn o gadw, defnyddio a diweddarau'r wybodaeth.

Bydd hyn yn golygu mabwysiadu cronfa ddata TG/taenlen briodol a all gael ei chysylltu'n hawdd â chronfa ddata Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS).

Bydd tîm GIS yr Awdurdod Lleol yn gallu nodi systemau pwrpasol y gall yr Awdurdod Lleol eu defnyddio.

Dadansoddi patrymau

Pan fydd y camau mapio/archwilio ac ymgynghori wedi cael eu cymryd, dylai'r holl wybodaeth berthnasol fod ar gael i gynnal dadansoddiad manwl o gyfleoedd chwarae presennol sy'n briodol i anghenion hysbys y gymuned.

Bydd y gwaith asesu wedi llwyddo i fapio a chofnodi pob math o fan chwarae'n fanwl; asesu eu hansawdd, maint a dosbarthiad; a'u hansawdd a hygyrchedd i grwpiau gwahanol.

Bydd proses ymgynghori leol yn rhoi gwybodaeth am anghenion, dymuniadau a rhwystrau gwahanol gymunedau.

Mae angen i'r ddwy ran hyn o'r broses gael eu dwyn ynghyd. Dylai manylder a chynnwys y dadansoddiad hwn gynnwys:

- nodweddion ac anghenion grwpiau oedran
- nodweddion ac anghenion grwpiau cymdeithasol/cymunedol
- nodweddion ac anghenion yn ôl ardal ddaearyddol
- dosbarthiad a nodweddion cyffredinol darpariaeth
- ansawdd darpariaeth
- nifer darpariaeth
- hygyrchedd darpariaeth

Felly, dylai'r cam dadansoddol hwn ddarparu materion a chyfleoedd perthnasol a gaiff eu defnyddio i lywio'r Cynllun Gweithredu ar Sicrhau bod Digon o Gyfleoedd Chwarae ar gael.

Manteision Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS)

Yn draddodiadol, cynhaliwyd a chyflwynwyd asesiad o ddarpariaeth chwarae ar ffurf geiriau, lluniau, tablau, siartiau a mapiau. Fodd bynnag, argymhellir yn gryf y dylai Awdurdodau Lleol ddefnyddio GIS i Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae.

Gall GIS fod yn ffordd effeithiol o:

- gysylltu canfyddiadau'r ymgynghoriad â'r asesiad o ddarpariaeth;
- nodi pellteroedd teithio gwirioneddol a rhwystrau tebygol i hygyrchedd, megis ffyrdd prysur;
- dynodi darpariaeth fel yr amlinellir yn y Canllawiau Statudol, sy'n berthynol i oedran ac anghenion hysbys cymunedau a grwpiau cymdeithasol penodol;
- nodi ardaloedd diffygiol, mesur dalgylchoedd a chysylltu dosbarthiad cyfleoedd chwarae â nodweddion economaidd-gymdeithasol a demograffig;
- nodi'r lleoliadau gorau ar gyfer cyfleusterau newydd neu well;
- nodi ymyriadau a allai wella mynediad, megis camau gostegu traffig neu lwybrau cerdded newydd;
- pennu safonau lleol priodol;
- monitro newidiadau o ran darpariaeth chwarae;
- cefnogi'r gwaith o gynllunio a chynnal a chadw mannau chwarae.

4. Y Cynllun Gweithredu

Bydd y Cynllun Gweithredu yn darparu'r fframwaith cynllunio strategol a pholisi ar gyfer y blaenoriaethau gweithredu a nodwyd yn y broses asesu.

Noda'r Rheoliadau a'r Canllawiau Statudol sy'n rhoi manylion am yr adran hon o'r Mesur y dylai'r Asesiad o Ddigionolrwydd Cyfleoedd Chwarae gynnwys **Cynllun Gweithredu** gyda chostau cysylltiedig, sy'n nodi'r targedau, y blaenoriaethau a'r cerrig milltir ar gyfer sicrhau digonolrwydd cyfleoedd chwarae dros gyfnod o dair blynedd. Mae'n rhaid i'r cynllun gynnwys gofynion cyllideb dangosol ar gyfer sicrhau digon o gyfleoedd chwarae yn ardal yr Awdurdod Lleol a gofynion cyllideb dangosol ar gyfer datblygu'r cynllun gweithredu llawn unwaith y dechreuir ail ran y ddyletswydd.

Cyfeiriwch at Adran 2b: Cynlluniau Gweithredu Digionolrwydd Cyfleoedd Chwarae

Rydym yn argymhell y dylai rhan gyntaf y Cynllun Gweithredu ddangos camau gweithredu o **fis Ebrill 2013**, y mae'r Awdurdod Lleol a'i bartneriaid yn bwriadu eu cymryd, mewn perthynas â'r Asesiad o Ddigionolrwydd Cyfleoedd Chwarae, i wella cyfleoedd chwarae i blant yn ei ardal. Dylai hefyd ddangos y camau gweithredu a gynhwysir yn y Cynllun Integredig Sengl.

Dylai ail ran y Cynllun Gweithredu ddangos y camau gweithredu o **fis Ebrill 2014**, y mae'r Awdurdod Lleol a'i bartneriaid yn bwriadu eu cymryd i gydymffurfio gyda'r broses o ddechrau ail ran Adran 11, y Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, er mwyn sicrhau digon o gyfleoedd chwarae i blant yn ei ardal, mewn perthynas â'r asesiad o ddigionolrwydd cyfleoedd chwarae.